



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru)

DOGFEN YMGYNGHORI



Dyddiad cyhoeddi:
7 Hydref 2022

Camau i'w cymryd:
Ymatebion erbyn 6 Ionawr 2023

“A thrwy gyngor a chytundeb y doethion a ddaeth yno, archwiliwyd yr hen gyfreithiau, gadawyd rhai ohonynt i barhau, diwygiwyd eraill, a dilëwyd eraill yn gyfan gwbl, a gosodwyd rhai eraill o’r newydd.”

Llyfr Iorwerth 1240

Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru) ac mae nawr yn ymgynghori ar ddrafft o'r Bil.

Sut i ymateb

Defnyddiwch yr holiadur ar ddiwedd y ddogfen hon, neu'r ffurflen ar-lein, neu ysgrifennwch at Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol (cyfeiriad e-bost a chyfeiriad isod). Croesawn ymatebion ar faterion unigol yn yr ymgynghoriad neu ar yr holl faterion dan sylw.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Swyddfa'r Codau Deddfwriaethol

Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: swyddfacodaudeddfwriaethol@llyw.cymru

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol yr ydych yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau pellach. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gellir comisiynu'r gwaith hwn i'w gwblhau gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gontract y caiff unrhyw waith o'r fath ei wneud. Mae amodau a thelerau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch fel arall yn cael eu cadw am dair blynedd fan bellaf.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch chi, ac i gael gweld y data hynny
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu atal prosesu (mewn rhai amgylchiadau penodol)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (mewn amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a sut mae'n cael ei defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR y DU, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost:
SwyddogDiogeluData@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

Termau a byrfoddau a ddefnyddir yn yr ymgynghoriad hwn	7
Diben Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau).....	11
Diben yr ymgynghoriad hwn.....	11
Cynnwys arfaethedig y Bil.....	12
Cynigion sy'n ymwneud â symleiddio a moderneiddio'r gyfraith cynllunio yng Nghymru	12
Byrddau Datblygu Gwledig.....	13
Ardaloedd parthau menter	15
Ymddiriedolaethau Gweithredu Tai	18
Cynlluniau lleol a chynlluniau strwythur: trefniadau trosiannol	20
Polisiau ynni mewn cynlluniau datblygu.....	22
Y drosedd o dynnu ymaith bridd heb gysyniad.....	24
Ad-drefnu llywodraeth leol.....	25
Pwyllgorau gwasanaethau cymdeithasol.....	26
Corff Gweddilliol Cymru	26
Cynlluniau datganoli a chydweithio	27
Datganiadau o anghenion addysgol arbennig	27
Byrddau Cynllunio Parciau Cenedlaethol.....	29
Awdurdod Datblygu Cymru	31
Bwrdd Datblygu Cymru Wledig.....	32
Awdurdod Tir Cymru	34
Hawliau tramwy cyhoeddus sydd heb eu cofnodi	35
Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.....	36
Diwygiadau amrywiol sy'n ymwneud â Deddf Llywodraeth Cymru 1998	37
Darpariaeth drosiannol mewn perthynas â Deddf Llywodraeth Cymru 2006	39
Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021	42
Materion posibl eraill i'w cynnwys mewn Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau)	43
Y camau arfaethedig nesaf.....	44
Furflen ymateb i'r ymgynghoriad	45

Termau a byrfoddau a ddefnyddir yn yr ymgynghoriad hwn

Deddf 1953	Deddf Tir Amaethyddol (Symud Ymaith Bridd Arwyneb) 1953
Deddf 1967	Deddf Amaethyddiaeth 1967
Deddf 1972	Deddf Llywodraeth Leol 1972
Deddf 1976	Deddf Datblygu Cymru Wledig 1976
Deddf 1977	Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977
Deddf 1979	Deddf Diwydiant 1979
Deddf 1980	Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980
Deddf 1986	Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986
Deddf 1988	Deddf Tai 1988
TCPA 1990	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
Deddf 1994	Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994
Deddf 1995	Deddf yr Amgylchedd 1995
Gorchymyn 1995	Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 (OS 1995/2803)
Deddf 1997	Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1997
GoWA 1998	Deddf Llywodraeth Cymru 1998
1999 TFO	Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672)
Deddf 2000	Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
PCPA 2004	Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
Gorchymyn 2005	Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 6, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005 (OS 2005/2847)
GoWA 2006	Deddf Llywodraeth Cymru 2006
Deddf 2008	Deddf Cynllunio ac Ynni 2008
Deddf 2014	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
Deddf 2021	Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021

(darpariaeth) a ddisbyddwyd	Mae darpariaeth wedi ei disbyddu yn ddarpariaeth sy'n gymwys i sefyllfa na all fodoli mwyach, megis darpariaeth sy'n rhoi swyddogaeth na ellir ei defnyddio eto. Mae canllawiau'r Llywydd ar Filiau cydgrynhoi yn rhoi enghreifftiau lle mae'r <i>"ddeddfwriaeth wreiddiol wedi darparu ar gyfer un cam i'w gymryd a bod hyn wedi'i wneud, neu oherwydd ni ellir diwallu amodau ar gyfer eu defnyddio mwyach"</i>
(darpariaeth) anarferedig	Darpariaeth sydd wedi dyddio yw darpariaeth anarferedig. Mae canllawiau'r Llywydd ar Filiau cydgrynhoi yn nodi y gallai hynny fod <i>"oherwydd ei bod yn ymwneud â chyrff, personau neu bethau nad ydynt bellach yn bodoli neu'n cael eu defnyddio"</i>
y Bil	Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru), pwnc yr ymgynghoriad hwn
Cronfa Gyfunol Cymru	Y gronfa gyfunol yw cyfrif banc canolog Llywodraeth y DU. Caiff derbyniadau trethi a derbyniadau eraill y llywodraeth eu talu i mewn i'r gronfa gyfunol a'u defnyddio i ariannu gwariant cyhoeddus. Yng Nghymru, y cyfrif banc canolog cyfatebol yw Cronfa Gyfunol Cymru. Caiff yr holl arian a dderbynnir gan Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiwn y Senedd ei dalu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru a'i ddefnyddio i ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru
cychwyn	Nid yw darpariaeth deddfwriaeth yn cael effaith hyd nes y mae wedi ei chychwyn. Cychwyn yw'r broses sy'n rhoi effaith i ddarpariaethau, ac o'r pwynt hwn ymlaen y maent yn dechrau cael effaith. Os oes deddfwriaeth wedi ei phasio neu ei gwneud ond heb ei chychwyn eto, ystyrir 'nad yw mewn grym eto'. Yn gyffredinol, tueddir i ddefnyddio'r termau 'cychwyn', 'dod i rym', 'cael effaith', 'dod yn effeithiol' a 'dod yn weithredol' yn gyfnewidiol. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn defnyddio'r termau 'cychwyn' a 'heb ei chychwyn'
Cyd-bwyllgorau Corfforedig	Cyrff corfforedig rhanbarthol yw Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a gyflwynwyd drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Rheoliadau sy'n sefydlu pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig, pob un yn cynnwys awdurdodau lleol unigol, a chyda'i gilydd

	maent yn cwmpasu Cymru gyfan. Mae'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gyfrifol am gynllunio datblygu strategol, cynllunio trafndiaeth rhanbarthol a hyrwyddo llesiant economaidd eu hardal
Cynlluniau Datblygu Lleol	Gweler paragraff 44 o'r ddogfen ymgynghori
Cynlluniau Datblygu Strategol	Gweler paragraff 45 o'r ddogfen ymgynghori
Cynlluniau Datblygu Unedol	Gweler paragraff 43 o'r ddogfen ymgynghori
darpariaethau trosiannol	Mae'n bosibl y bydd angen darpariaethau arbennig mewn perthynas â materion sy'n pontio'r cyfnod rhwng diwedd y naill system ddeddfwriaethol a dechrau'r llall. Weithiau, cynhelir effaith yr hen ddeddf, weithiau cymhwysir y ddeddf newydd, ond yn y ddau achos mae'n bosibl y bydd angen addasiadau i sicrhau bod materion o'r fath yn gweithredu'n ddidrafferth. Ymdrinnir â'r rhain mewn deddfwriaeth y cyfeirir ati fel "darpariaethau trosiannol"
deddfiad	Deddf neu ddarpariaeth Deddf
diddymu	Dod â deddf i ben fel nad yw'n cael (neu fel na allai gael) effaith mwyach
diwygiad canlyniadol	Diwygiad sy'n angenrheidiol o ganlyniad i addasiadau eraill o'r gyfraith, er enghraifft i sicrhau bod darpariaethau eraill yn parhau i weithredu'n gywir ar ôl yr addasiad hwnnw
Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru	Gweler paragraff 45 o'r ddogfen ymgynghori
gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (TFO)	Offeryn statudol sy'n trosglwyddo swyddogaethau o'r naill awdurdod cyhoeddus i'r llall (gweler, yn benodol, 1999 TFO - uchod)
(darpariaeth) nad yw'n ymarferol ddefnyddiol/ymarferol effeithiol mwyach	Darpariaeth y mae amgylchiadau wedi ei gwneud yn ymarferol amherthnasol neu ddiangen. Mae canllawiau'r Llywydd ar Filiau cydgrynhoi¹ yn egluro y gallai hyn gynnwys darpariaethau "<i>nad oes eu hangen mwyach gan fod darpariaeth gyfreithiol ar gael mewn man arall ... sydd ag effaith gyfreithiol gyfatebol.</i>" Gall hefyd gynnwys "<i>darpariaethau na chawsant eu cychwyn erioed ac</i>

¹ Busnes y Senedd (2021) *Canllawiau i ategu'r drefn o weithredu Rheol Sefydlog 26C ar Filiau Cydgrynhoi*: Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 26C.3 ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes (gweler paragraff 9) [ar gael yn: [Canllawiau i ategu'r drefn o weithredu Rheol Sefydlog 26C ar Filiau Cydgrynhoi: Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 26C.3 ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes \(senedd.cymru\)](#)]

*nad yw'n debygol y cânt byth eu cychwyn yng
Nghymru; neu os cafodd y ddarpariaeth ei
chychwyn ond na chafodd ei defnyddio erioed ac ni
ddisgwylir i'r ddarpariaeth gael ei defnyddio yng
Nghymru; neu cafodd ei chychwyn a'i defnyddio,
ond nid yw wedi'i defnyddio am gyfnod sylweddol
ac ni ddisgwylir iddi gael ei defnyddio yn y dyfodol;
neu efallai bod Deddfau, darpariaethau neu
amgylchiadau eraill wedi disodli'r ddarpariaeth"*

Diben Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau)

1. Mae gan Lywodraeth Cymru raglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru². Mae'r rhaglen hon yn ceisio mynd i'r afael â phroblemau gyda chymhlethdod y gyfraith a chyflwr anhrefnus ein llyfr statud anferth a gwasgarog. Caiff y problemau eu hachosi nid yn unig gan y swm enfawr o ddeddfwriaeth ond hefyd oherwydd bod y ddeddfwriaeth honno wedi ei diwygio, ei hailddiwygio a'i hail-wneud mewn ffyrdd anghyson dros amser. Weithiau gall y newidiadau hynny arwain at ddarpariaethau deddfwriaethol nad ydynt bellach yn angenrheidiol. Gall darpariaethau hefyd ddisgyn allan o ddefnydd neu beidio â chael eu cychwyn o gwbl (yn aml oherwydd bod amgylchiadau eraill wedi eu gwneud yn ddiangen).
2. Gall tynnu darpariaethau diangen o'r llyfr statud helpu i'w "dacluso" ac mae diwygio darpariaethau fel nad ydynt yn gymwys mwyach o ran Cymru yn helpu i ddarparu eglurder ynghylch pa gyfraith sy'n berthnasol i Gymru.
3. Os canfyddir y darpariaethau diangen mewn Deddfau (gan Senedd y DU neu Senedd Cymru) fel arfer mae angen rhagor o ddeddfwriaeth sylfaenol i'w dileu. Yn hytrach nag aros am Fil addas sy'n ymdrin â newidiadau eraill i'r maes hwnnw o'r gyfraith, gellir cyflwyno Bil sydd, yn syml, yn diddymu neu'n datgymhwyso darpariaethau deddfwriaethol o unrhyw ran o'r llyfr statud. Fel arfer, gelwir y Biliau hyn yn Filiau 'Cyfraith Statud (Diddymiadau)'. Mae tua 20 o Filiau Cyfraith Statud (Diddymiadau) wedi cael eu deddfu gan Senedd y DU, ond nid oes yr un wedi ei ystyried gan y Senedd eto.
4. Mae'r math hwn o Fil yn helpu i wella hygyrchedd cyfraith Cymru drwy foderneiddio a symleiddio'r gyfraith, gan leihau maint y llyfr statud a'i wneud yn haws ei ddeall. Mae hyn yn arbed amser cyfreithwyr ac eraill sy'n defnyddio deddfwriaeth, yn helpu i osgoi costau diangen ac yn atal pobl rhag cael eu camarwain gan gyfreithiau anarferedig. Rhagwelir y bydd Bil fel hwn yn ymddangos yn y rhan fwyaf o raglenni Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

Diben yr ymgynghoriad hwn

5. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru) ac mae bellach yn ymgynghori arno. Mae diben yr ymgynghoriad yn ddeublyg -
 - a. yn gyntaf, mewn perthynas â'r cynigion unigol yn y Bil (gweler paragraffau 12 i 129 isod, rydym am wybod a yw'r diddymiadau'n ddefnyddiol, ac a oes ganddynt unrhyw ganlyniadau y mae angen inni fod yn ymwybodol ohonynt;
 - b. yn ail, rydym am wybod a oes unrhyw ddarpariaethau eraill y dylem ystyried eu cynnwys yn y Bil hwn neu Fil yn y dyfodol (boed yn ymwneud â'n cynigion presennol neu ddeddfwriaeth arall).

² Ar gael yn: [Dyfodol cyfraith Cymru: rhaglen hygyrchedd 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU](#)

6. Gofynnir cwestiynau unigol am y cynigion, ac mae'r holl gwestiynau wedi eu rhestru ar y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon. Rydym yn croesawu ymatebion ar gynigion unigol, y Bil cyfan, neu unrhyw agwedd arall ar ddiddymu darpariaethau o'r llyfr statud.

Cynnwys arfaethedig y Bil

7. Mae'r diddymiadau a'r diwygiadau arfaethedig yn y Bil hwn wedi eu dewis ar y sail eu bod yn ymdrin â -
 - a. darpariaethau anarferedig, darpariaethau a ddisbyddwyd neu ddarpariaethau nad ydynt fel arall yn ymarferol ddefnyddiol mwyach;
 - b. darpariaethau sy'n annhebygol o gael eu cychwyn, ar ôl bod heb eu cychwyn am gyfnod ac mae'r cyd-destun gwreiddiol wedi newid yn ystod y cyfnod hwnnw; neu
 - c. darpariaethau sydd fel arall yn ddiangen (er enghraifft, pan fo'r diben yn cael ei fodloni gan ryw fodd arall).
8. Mae'r diddymiadau a'r diwygiadau arfaethedig yn cael eu hesbonio isod.

Cynigion sy'n ymwneud â symleiddio a moderneiddio'r gyfraith cynllunio yng Nghymru

9. Un o'r prosiectau allweddol yn rhaglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru yw mynd i'r afael â chymhlethdodau ac aneffeithlonrwydd y gyfraith cynllunio yng Nghymru. Bydd y Llywodraeth, yn ystod y tymor Seneddol hwn, yn cyflwyno Bil i symleiddio a moderneiddio'r gyfraith cynllunio yng Nghymru. Mae angen y Bil ers tro byd, fel y dangoswyd yn glir pan ddaeth adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru*³, i'r casgliad ei fod yn faes o'r gyfraith sydd angen sylw brys. Tynnodd ei adroddiad sylw at yr effeithiau niweidiol y mae diffyg hygyrchedd, ansawdd a chymhlethdod y gyfraith yn eu cael ar weithrediad y system gynllunio - canfyddiadau sydd wedi eu derbyn gan y Llywodraeth.
10. Cyn i Fil Cynllunio gael ei gyflwyno, bydd y Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru) arfaethedig yn dileu darpariaethau penodol diangen mewn deddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â deddfwriaeth gynllunio neu sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth gynllunio. Bydd hyn yn caniatáu i ryw faint o'r gwaith o dacluso'r llyfr statud mewn perthynas â chynllunio fynd rhagddo yn gynt nag a fyddai'n digwydd fel arall a bydd yn osgoi darpariaethau sy'n ymwneud â'r diddymiadau hynny rhag cael eu cynnwys yn y Bil Cynllunio. Hoffem, cymaint ag sy'n bosibl, i'r Bil Cynllunio sefyll fel y prif ddatganiad ar y gyfraith cynllunio yng Nghymru, ac ni fydd darpariaethau a ddisbyddwyd, sy'n ddiangen neu sy'n anarferedig ond yn ychwanegu at hyd a chymhlethdod y Bil hwnnw yn ddiangen.

³ Ar gael yn: [Cyfraith cynllunio yng Nghymru | Comisiwn y Gyfraith](#)

11. Mae'r Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru) drafft felly, yn diddymu darpariaethau sy'n ymwneud â:
- a. Byrddau Datblygu Gwledig (gweler Rhan 1 o'r Atodlen i'r Bil);
 - b. Ardaloedd parthau menter (gweler Rhan 2 o'r Atodlen i'r Bil);
 - c. Ymddiriedolaethau gweithredu tai (gweler Rhan 3 o'r Atodlen i'r Bil);
 - d. Cynlluniau lleol a chynlluniau strwythur (gweler Rhan 4 o'r Atodlen i'r Bil);
 - e. Polisiâu ynni mewn cynlluniau datblygu (gweler Rhan 5 o'r Atodlen i'r Bil); ac
 - f. Y drosedd o symud ymaith bridd ar gyfer datblygu heb gydsyniad (gweler Rhan 6 o'r Atodlen i'r Bil).

Nodir manylion pellach am bob un o'r elfennau hyn isod.

Byrddau Datblygu Gwledig

12. Nod Rhan 3 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1967 (Deddf 1967) oedd hyrwyddo defnydd gwell o diroedd mynydd. Wrth ystyried Rhan 3 amlinellodd Comisiwn y Gyfraith⁴ fod hyn yn golygu:

...yn enwedig, y defnydd o ardaloedd o'r fath ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth, gwella gwasanaethau cyhoeddus a diogelu amwynder a golygfeydd yno.

13. Ymhlith materion eraill, roedd Rhan 3 o Ddeddf 1967 yn rhoi pwerau i Weinidogion sefydlu Byrddau Datblygu Gwledig a allai lunio rhaglenni i ymdrin â'r "special problems ... of rural areas of hills and uplands, and the special needs of such areas" (adran 45(1)). Mae Atodlen 5 i Ddeddf 1967 yn rhagnodi'r mecanwaith ar gyfer sefydlu Bwrdd o'r fath a'i gyfansoddiad. Mae swyddogaethau sefydlu Byrddau Datblygu Gwledig mewn perthynas â Chymru bellach wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru⁵.
14. Nid oes Byrddau Datblygu Gwledig wedi eu sefydlu mewn perthynas â Chymru o dan Ddeddf 1967. Wrth ystyried y gyfraith cynllunio yng Nghymru, eglurodd Comisiwn y Gyfraith⁶:

... dim ond un bwrdd a sefydlwyd erioed, yng Ngogledd Lloegr yn 1969, a ddiddymwyd ddwy flynedd yn ddiweddarach. Roedd ail fwrdd arfaethedig, yng nghanolbarth Cymru, yn destun ymgyrchoedd gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, a oedd yn ei wrthwynebu fel corff o'r tu allan a oedd yn cael ei gyflwyno gan Lundain. Ni ddaeth i fodolaeth.

⁴ Comisiwn y Gyfraith (2017) Papur Ymgynghori *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* Law Com No 233, paragraff 16.90 [ar gael yn: [Cyfraith cynllunio yng Nghymru | Comisiwn y Gyfraith](#)]

⁵ Digwyddodd hyn drwy gyfres o "orchmyinion trosglwyddo swyddogaethau" sy'n ymwneud yn bennaf â'r setliad datganoli i Gymru

⁶ Comisiwn y Gyfraith (2017) Papur Ymgynghori *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* Law Com No 233, paragraff 16.91

15. Cynigiodd Comisiwn y Gyfraith⁷ dros dro felly i ddiwygio Rhan 3 o Ddeddf 1967 ac Atodlen 5 iddi fel nad ydynt yn gymwys mwyach o ran Cymru. Roedd hyn oherwydd eu bod yn ystyried "... *nad oedd yn debygol y câi'r cynllun statudol ei ddefnyddio byth yn y dyfodol*".
16. Yn ei adroddiad terfynol, *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru*, nododd Comisiwn y Gyfraith fod pob un ond un o'r 23 ymgynghorai a ymatebodd i'r awgrym hwn, yn gyfôn. O ganlyniad, gwnaeth y Comisiwn Argymhelliad 16-12:

Argymhellwn y dylid diwygio Rhan 3 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1967 ac Atodlen 5 i'r deddf honno (byrddau datblygu gwledig) a deddfwriaeth gysylltiedig fel na fyddant yn gymwys mwyach mewn perthynas â Chymru.

17. Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad⁸ yn derbyn yr argymhelliad hwn, gan nodi ar y pryd:

Er ein bod o'r farn y dylai adnoddau adfywio eraill gael eu cynnal er mwyn cefnogi rôl arwain Gweinidogion Cymru wrth weithredu'r strategaeth genedlaethol, nid yw byrddau datblygu gwledig yn berthnasol iawn o ystyried y defnydd cyfyngedig a'r gwrthwynebiad a gafwyd i'r unig fwrdd a gynigiwyd yng Nghymru.

Ynghyd â'r stigma sydd ynghlwm wrth fyrddau o'r fath, gall bwrdd datblygu gwledig ddefnyddio pwerau y gellir tybio eu bod wedi'u gorfodi ar ardaloedd o'r fath. Mae hyn yn groes i'r rôl gefnogol a hyrwyddir yn Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â'r problemau arbennig a wynebir gan ardaloedd gwledig.

18. Nod gwreiddiol Deddf 1967 yn gyffredinol oedd cefnogi ffermio a'r defnydd o dir amaethyddol. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig i Lywodraeth Cymru, ac yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*⁹ a'r *Papur Gwyn Amaeth (Cymru)*¹⁰ nododd y Llywodraeth sut y bydd egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn darparu'r fframwaith hirdymor ar gyfer polisi a chymorth amaethyddol yn y dyfodol. Nod y dull hwn yw sicrhau bod modd cyflawni canlyniadau economaidd, amgylcheddol, a chymdeithasol arferion rheoli tir er budd y genedl yn yr hirdymor. Mae Bil Amaethyddiaeth (Cymru), a gyflwynwyd i'r Senedd ar 26 Medi 2022 yn ceisio sicrhau bod gan Weinidogion Cymru'r pwerau angenrheidiol i barhau i gefnogi ffermwyr yng Nghymru i fabwysiadu arferion sy'n cyfrannu at Reoli Tir yn Gynaliadwy. Y Cynllun

⁷ Comisiwn y Gyfraith (2017) *Papur Ymgynghori Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* Law Com No 233, cwestiwn ymgynghori 16-12.

⁸ Llywodraeth Cymru (2020) *Tabl Ymatebion Llywodraeth Cymru i bob argymhelliad*, ymateb i argymhelliad 16-12 [ar gael yn: [Ymateb manwl i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith cynllunio yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)]

⁹ Llywodraeth Cymru (2019), ar gael yn: [Ffermio cynaliadwy a'n tir \(llyw.cymru\)](#)

¹⁰ Llywodraeth Cymru (2020), ar gael yn: [Papur Gwyn Amaeth \(Cymru\) \(llyw.cymru\)](#)

Ffermio Cynaliadwy¹¹, sy'n cael ei ddatblygu gyda ffermwyr ac eraill sydd â diddordeb yn y tir, fydd prif ffynhonnell cymorth y Llywodraeth ar gyfer ffermwyr yng Nghymru yn y dyfodol.

19. Mae Paragraff 1 o'r Atodlen i'r Bil felly yn diwygio Deddf 1967 er mwyn datgymhwyso darpariaethau yn Rhan 3 o'r Ddeddf honno i Gymru, a diwygio'r darpariaethau dehongli perthnasol er mwyn dileu cyfeiriadau at Gymru na fyddai eu hangen mwyach. Mae Atodlen 5 i Ddeddf 1967 yn cael ei chyflwyno gan adran 45(5) o'r Ddeddf honno, ac felly mae datgymhwyso'r adran honno i Gymru hefyd yn golygu nad yw Atodlen 5 yn gymwys.
20. O ganlyniad i'r diwygiadau arfaethedig i Ddeddf 1967, mae'r Bil hefyd yn diddymu'r diwygiad a wnaed i Ddeddf 1967 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994; ac yn dileu'r cyfeiriad, yn Atodlen 3A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, at swyddogaeth sy'n arferadwy o dan Ddeddf 1967.
21. Gan fod y Llywodraeth eisoes wedi derbyn argymhelliad Comisiwn y Gyfraith na ddylai Rhan 3 o Ddeddf 1967, nac Atodlen 5 iddi, fod yn gymwys mwyach o ran Cymru, ni cheisir barn ynghylch hynny yn yr ymgynghoriad hwn. Yn hytrach, hoffem ddeall a oes gan ddiwygio Deddf 1967 fel hyn unrhyw ganlyniadau nad ydym wedi eu nodi ond y mae angen inni fod yn ymwybodol ohonynt.

Cwestiwn 1 - A oes gan ddiwygio Rhan 3 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1967 fel nad yw'n gymwys mwyach o ran Cymru unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Ardaloedd parthau menter

22. Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 (Deddf 1980) bwerau i sefydlu 'ardaloedd parthau menter' i weld sut y gallai llacio rheolaeth gynllunio, eithrio rhag ardrethi annomestig a chymhellion cyllidol penodol eraill, helpu i adfywio ardaloedd trefol adfeiliedig a diffaith.
23. Yn y degawdau canlynol, gwnaed tua 35 o orchmynion, gan ddynodi rhyngddynt ychydig dros 100 o ardaloedd menter. O'r rheini, dynododd pedwar gorchymyn 15 ardal fenter yng Nghymru¹². Roedd y cynlluniau hyn yn gweithredu o ddechrau'r 1980au tan ddechrau'r 1990au ond nid yw'r pwerau wedi cael eu defnyddio ers hynny. Yn ei adroddiad yn 2018, *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru*, nododd Comisiwn y Gyfraith¹³:

¹¹ Am ragor o wybodaeth gweler *Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cynigion Bras ar gyfer 2025* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (Gorffennaf 2022) ac sydd ar gael yn: [Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cynigion Bras ar gyfer 2025 | LLYW.CYMRU](#)

¹² Abertawe (o dan OS 1981/757), 13 ar lannau Dyfrffordd Aberdaugleddau (1984/443 ac 1984/444) a Chwm Tawe Isaf (1985/137)

¹³ Comisiwn y Gyfraith (2017) *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* Law Com No 383, ym mharagraff 16.74 [ar gael yn: [Cyfraith cynllunio yng Nghymru | Comisiwn y Gyfraith](#)]

Nid oes yr un gorchymyn wedi'i wneud ers 1996, a dim un yng Nghymru ers 1985. Mae hyn yn golygu nad oes yr un ardal fenter wedi bodoli o dan Ddeddf 1980 yng Nghymru ers dros 20 mlynedd.

24. Cyflwynwyd ail fath o ardal fenter wedyn i Ddeddf Lwfansau Cyfalaf 2001 gan Ddeddf Cyllid 2012; nod y rhain yw annog twf economaidd a buddsoddiad. Mae wyth ardal fenter¹⁴ yn weithredol yng Nghymru ar hyn o bryd, pob un yn arbenigo mewn sector busnes penodol. Nid oes gan y gydnabyddiaeth o'r math hwn o ardal fenter unrhyw oblygiadau uniongyrchol ar y system gynllunio, ac mae'r ddeddfwriaeth alluogi y maent yn gweithredu oddi tani yn dal i gael ei defnyddio ac nid oes disgwyl iddi gael ei chynnwys yn y prosiect cydgrynhoi ar gyfer cynllunio sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Nid yw'r Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru) drafft yn effeithio ar yr ail fath hwn o ardal fenter.
25. Fodd bynnag, argymhellodd Comisiwn y Gyfraith ddiwygio Deddf 1980 fel nad yw'r math cyntaf o ardal fenter yn gymwys mwyach o ran Cymru, gan nodi "... *nad oedd unrhyw ardaloedd menter eraill yn debygol o gael eu dynodi o dan y pwerau yn Neddf 1980*" ac awgrymu¹⁵:

.. na fyddai'n werth cadw'r posibilrwydd o ddynodiadau o'r fath. At hynny, mae'r ffaith bod dwy gyfundrefn gymell i'w cael sydd â'r un teitl ond a sefydlwyd o dan ddeddfwriaeth hollol wahanol yn pwysleisio'r angen i ddileu darpariaethau diangen o'r llyfr statud.

26. Ymgynghorodd Comisiwn y Gyfraith ar y cynnig yn 2017, ac roedd pob un ond un o'r 24 ymgynghorai a ymatebodd i'r awgrym hwn, yn gytûn. Barn Cyngor Sir Caerfyrddin oedd bod cadw'r pwerau hyn yn rhoi mwy o opsiynau i awdurdodau lleol. Nid oedd Comisiwn y Gyfraith yn cytuno â'r farn honno, gan argymhell¹⁶:

...diwygio Rhan 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 (ardaloedd menter) ac Atodlen 32 i'r ddeddf honno... fel na fyddant yn gymwys mwyach mewn perthynas â Chymru.

27. Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad¹⁷ yn derbyn yr argymhelliad hwn.
28. Mae Paragraff 4 o'r Atodlen i'r Bil yn diwygio Atodlen 32 i Ddeddf 1980 er mwyn datgymhwyso'r darpariaethau hyn mewn perthynas â Chymru¹⁸. Effaith hyn yw dileu pŵer Gweinidogion Cymru i ddynodi ardaloedd menter o dan Ddeddf 1980.

¹⁴ Am fwy o wybodaeth gweler: [Ardaloedd Menter Cymru | Busnes Cymru \(gov.wales\)](#)

¹⁵ Comisiwn y Gyfraith (2017) *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* Law Com No 383, ym mharagraff 16.77

¹⁶ Comisiwn y Gyfraith (2017) *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* Law Com No 383, argymhelliad 16-8

¹⁷ Llywodraeth Cymru (2020) *Tabl ymatebion Llywodraeth Cymru i bob argymhelliad*, ymateb i argymhelliad 16-8 [ar gael yn: [Ymateb manwl i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith cynllunio yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)]

¹⁸ Nid yw Rhan 18 yn gwneud dim mwy na chyflwyno'r Atodlen, ac felly nid oes angen ei diwygio.

29. Mae'r Bil hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, sy'n ymwneud â dileu pŵer Gweinidogion Cymru i ddynodi ardaloedd menter o dan Ddeddf 1980.
30. Rydym yn nodi y bydd cyfyngu Atodlen 32 i Ddeddf 1980 fel nad yw ond yn gymwys o ran Lloegr, yn cael effaith ganlyniadol o ran newid ystyr ardal fenter lle bynnag y bo ardal fenter o fewn ystyr Atodlen 32 i Ddeddf 1980 yn ymddangos mewn deddfwriaeth. Er enghraifft, mae paragraff 19(2) o Atodlen 5 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 wedi eithrio hereditament¹⁹ sydd wedi ei leoli mewn ardal fenter rhag ardrethu domestig lleol.
31. Effaith arall dynodi ardal fenter o dan Ddeddf 1980 yw rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a ddisgrifir yn y cynllun (o dan adrannau 88 ac 89 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (TCPA 1990)). Gellir hefyd roi swyddogaethau awdurdod cynllunio lleol i awdurdod yr ardal fenter (a all fod yn gyngor sirol neu fwrdeistref sirol, corfforaeth datblygu trefol neu gorfforaeth dref newydd) mewn perthynas â'r ardal (o dan adran 6 o TCPA 1990). Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith²⁰ i ddiwygio'r darpariaethau a oedd yn galluogi awdurdodau ardaloedd menter (yn ogystal ag Ymddiriedolaethau Gweithredu Tai (gweler isod) a chorfforaethau datblygu trefol) i fod yn awdurdodau cynllunio lleol mewn perthynas â Chymru. Cafodd yr argymhelliad hwn hefyd ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Roedd barn y Llywodraeth ar yr argymhelliad hwn yn egluro²¹:

... Diben y cyrff ardal hyn yw hyrwyddo'r gwaith o adfywio neu wella'r ardaloedd maent yn eu cwmpasu. O ystyried rôl bwysig awdurdodau cynllunio presennol wrth greu lleoedd, credwn y dylai'r cyrff hyn weithio mewn partneriaeth â nhw er mwyn sicrhau bod lleoedd cynaliadwy a bywiog yn cael eu creu ar gyfer ein cymunedau. Bydd atal cyrff o'r fath rhag bod yn awdurdodau cynllunio yn eu rhinwedd eu hunain yn helpu i greu'r gwaith partneriaeth hwn.

Nid yw'r Bil hwn yn ymdrin â'r newidiadau arfaethedig ar gyfer awdurdodau cynllunio, gan fod y gwaith hwn yn cael ei wneud fel rhan o'r rhaglen gydgrynhoi arfaethedig ar gyfer cyfraith cynllunio.

32. Gan fod y Llywodraeth eisoes wedi derbyn argymhelliad Comisiwn y Gyfraith na ddylai Atodlen 32 i Ddeddf 1980 fod yn gymwys mwyach o ran Cymru, ni cheisir barn ynghylch hynny yn yr ymgynghoriad hwn. Yn hytrach, hoffem ddeall a oes gan ddiwygio Deddf 1980 fel hyn unrhyw ganlyniadau nad ydym wedi eu nodi ond y mae angen inni fod yn ymwybodol ohonynt.

¹⁹ Eitem o eiddo (tir, adeilad, neu eitem megis rhent) y gellir ei hetifeddu.

²⁰ Comisiwn y Gyfraith (2017) *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* Law Com No 383, argymhelliad 5-12

²¹ Llywodraeth Cymru (2020) *Tabl Ymatebion Llywodraeth Cymru i bob argymhelliad*, ymateb i argymhelliad 5-12 [ar gael yn: [Ymateb manwl i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith cynllunio yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)]

Cwestiwn 2 - A oes gan ddiwygio Atodlen 32 i Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 fel nad yw'n gymwys mwyach o ran Cymru unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Ymddiriedolaethau Gweithredu Tai

33. Roedd Rhan 3 o Ddeddf Tai 1988 (Deddf 1988) yn gwneud darpariaeth ynghylch 'Ardaloedd Ymddiriedolaeth Gweithredu Tai' ("Housing Action Trust Areas"). Eglura Comisiwn y Gyfraith²² mai ardaloedd oedd y rhain:

...lle y gallai amodau byw trigolion lleol a'r amodau cymdeithasol a'r amgylchedd cyffredinol gael eu gwella gan "ymddiriedolaeth gweithredu tai" a sefydlwyd yn arbennig.

Gellid dynodi ymddiriedolaethau o'r fath yn awdurdod cynllunio lleol yn eu hardaloedd (o dan adran 8 o TCPA 1990).

34. Rhoddwyd y swyddogaeth o ddynodi i'r Ysgrifennydd Gwladol yn wreiddiol, ond mae trosglwyddo swyddogaethau o ganlyniad i ddatganoli yn golygu mai Gweinidogion Cymru sydd bellach yn gyfrifol am hyn mewn perthynas â Chymru.
35. Rhwng 1991 a 1994, dynodwyd chwe ardal yn ardaloedd ymddiriedolaeth gweithredu tai, a phob un ohonynt yn Lloegr. Ni ddynodwyd yr un o'r ymddiriedolaethau yn awdurdod cynllunio lleol a chafodd pob un ei dirwyn i ben ar wahanol ddyddiadau rhwng 1999 a 2005. Nid oes yr un ardal ymddiriedolaeth gweithredu tai wedi ei dynodi yng Nghymru.
36. Ar y sail bod Comisiwn y Gyfraith wedi dod i'r casgliad ei bod yn ymddangos nad oedd unrhyw argoel y byddai ardaloedd o'r fath yn cael eu dynodi yng Nghymru, ymgynghorodd ar gynnig i ddiwygio Rhan 3 o Ddeddf 1988 fel ei bod yn gymwys i Loegr yn unig. Yn ei adroddiad, *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru*, amlinellwyd canfyddiadau'r ymgynghoriad²³:

O'r 24 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r awgrym hwn, roedd pawb ond un yn cytuno ag ef. Roedd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol o blaid y newid arfaethedig, a gwnaethant nodi:

Housing is now a devolved power, and the Housing (Wales) Act 2014 aims to improve the quality and standards of housing in Wales. No Housing Action Trust Areas have been designated in Wales; and regeneration policy funded via the [Vibrant] and Viable Places programme and the recently launched targeted regeneration investment policy are the appropriate mechanisms

²² Comisiwn y Gyfraith (2020) *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* Law Com No 383, ym mharagraff 16.90

²³ Comisiwn y Gyfraith (2020) *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* Law Com No 383, ym mharagraff 16.93

for tackling areas with serious housing and other social problems. Stock transfer of local authority housing and the release of subsidy to bring homes up to the Welsh Housing Quality Standard have been largely successful across Wales.

37. Felly, argymhellodd Comisiwn y Gyfraith²⁴:

... diwygio (1) Rhan 3 o Ddeddf Tai 1988 (ardaloedd ymddiriedolaethau gweithredu tai), ... fel na fyddant yn gymwys mwyach mewn perthynas â Chymru

38. Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad²⁵ yn derbyn yr argymhelliad hwn, gan nodi:

Nod Ymddiriedolaethau Gweithredu Tai yw rheoli tai awdurdod lleol mewn ardal ddynodedig am gyfnod penodol, trwsio a moderneiddio'r tai sydd ganddo, gwella amgylchedd cyffredinol yr ardal ac wedyn ei hadfywio, cynyddu amrywiaeth tenantiaeth drwy drosglwyddo perchenogaeth i landlordiaid cymdeithasol eraill. Ym mhapur gwyn 1987, a wnaeth gefnogi cyflwyno Ymddiriedolaethau Gweithredu Tai, awgrymwyd y dylent gael eu sefydlu mewn ardaloedd canol dinas â phroblemau tai a phroblemau cymdeithasol difrifol, ac mewn ardaloedd lle ceir tai cyngor fwyaf.

Ni sefydlwyd ymddiriedolaeth o'r fath yng Nghymru ac ymddengys fod y ddeddfwriaeth hon yn amherthnasol bellach, gan fod mentrau eraill wedi cael eu sefydlu yng Nghymru sydd wedi sicrhau gwelliannau i stoc dai a chynyddu amrywiaeth tenantiaeth.

39. Mae Paragraff 7 o'r Atodlen i'r Bil yn diwygio Rhan 3 o Ddeddf 1988 fel ei bod yn gymwys yn Lloegr yn unig, ac mae'n gwneud diwygiad canlyniadol i Atodlen 8 i'r un Ddeddf. O ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i Ddeddf 1988, mae hefyd angen diwygio er mwyn:
- a. dileu cyfeiriadau perthnasol at ymddiriedolaethau gweithredu tai yng Nghymru yn Neddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990; Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994; Deddf Llywodraeth Cymru 1998; a Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006;
 - b. ei gwneud yn glir yn adran 20(1) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014 fod y cyfeiriad at Ymddiriedolaeth Gweithredu Tai yn gymwys mewn perthynas â Lloegr yn unig;
 - c. dileu cyfeiriad a ddisbyddwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a diwygiad a ddisbyddwyd yn Neddf Dadreoleiddio 2015.

²⁴ Comisiwn y Gyfraith (2020) *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* Law Com No 383, argymhelliad 16-11

²⁵ Llywodraeth Cymru (2020) *Tabl ymatebion i bob argymhelliad*, ymateb i argymhelliad 16-11 [ar gael yn: [Ymateb manwl i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith gynllunio yng Nghymru | LLYW. CYMRU](#)]

40. Fel y nodwyd yn gynharach yn y ddogfen ymgynghori hon, argymhellodd Comisiwn y Gyfraith²⁶ hefyd y dylid dileu'r darpariaethau a oedd yn galluogi ymddiriedolaethau gweithredu tai i fod yn awdurdodau cynllunio lleol. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru, ond ymgwymerir â'r agwedd hon ar yr argymhelliad fel rhan o'r trefniadau arfaethedig i gydgyrnhoi cyfraith cynllunio, nid yn y Bil hwn.
41. Gan fod y Llywodraeth eisoes wedi derbyn argymhelliad Comisiwn y Gyfraith na ddylai Rhan 3 o Ddeddf 1988 fod yn gymwys mwyach o ran Cymru, ni cheisir barn ynghylch hynny yn yr ymgynghoriad hwn. Yn hytrach, hoffem ddeall a oes gan ddiwygio Deddf 1988 fel hyn unrhyw ganlyniadau nad ydym wedi eu nodi ond y mae angen inni fod yn ymwybodol ohonynt.

Cwestiwn 3 - A oes gan ddiwygio Rhan 3 o Ddeddf Tai 1988 fel nad yw'n gymwys mwyach o ran Cymru unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Cynlluniau lleol a chynlluniau strwythur: trefniadau trosiannol

42. Mae'r system gynllunio yng Nghymru yn un sy'n cael ei harwain gan gynlluniau datblygu, sy'n golygu mai cynlluniau datblygu yw'r man cychwyn wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Pan fydd cynllun datblygu wedi cael ei fabwysiadu, bydd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn cael eu gwneud yn unol â'r cynllun datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Mae'r system cynlluniau datblygu yng Nghymru yn cynnwys tair haen gyda chynlluniau yn cael eu llunio ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.
43. Arferai'r ddeddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â llunio cynlluniau datblygu fod yn Rhan 2 o TCPA 1990. Darparai'r honno, yn gyffredinol, y dylai pob ardal feddu ar gynllun strwythur (wedi ei lunio fel arfer gan y cyngor sir ar gyfer sir gyfan) a chyfres o gynlluniau lleol (pob un wedi ei lunio gan y cyngor dosbarth perthnasol, gan gwmpasu'r cyfan neu ran o'i ardal). Mewn achosion lle cafwyd system un haen o gynghorau bwrdeistref, darparai TCPA 1990 hefyd ar gyfer cynlluniau datblygu unedol. Wrth i system un haen o lywodraeth leol gael ei chyflwyno yng Nghymru o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (Deddf 1994), dechreuwyd mabwysiadu cynlluniau datblygu unedol o dan y system honno hefyd.
44. Wedi hynny, cyflwynodd Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (PCPA 2004) Gynllun Gofodol Cymru, sef cynllun newydd ar gyfer Cymru gyfan, a oedd i'w lunio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel yr oedd ar y pryd). Cyflwynodd hefyd gynlluniau datblygu lleol, a wnaeth ddisodli cynlluniau datblygu unedol wrth iddynt gael eu mabwysiadu. Caiff cynlluniau datblygu lleol eu llunio gan awdurdodau cynllunio un haen sy'n gorfod rhoi sylw i Gynllun Gofodol Cymru. Mae cynlluniau datblygu lleol bellach wedi cael eu mabwysiadu gan bob un o'r awdurdodau cynllunio

²⁶ Comisiwn y Gyfraith (2020) *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* Law Com No 383, argymhelliad 5-12

yng Nghymru (gan gynnwys y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol), ac eithrio Wrecsam a Sir y Fflint sydd â chynlluniau datblygu unedol o hyd²⁷.

45. Yn fwy diweddar, cafodd PCPA 2004 ei diwygio gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 drwy gyflwyno'r cysyniad o Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, a ddaeth yn rhan o'r cynllun datblygu ac a ddisodlodd Gynllun Gofodol Cymru (ar 24 Chwefror 2021). Roedd hefyd yn darparu ar gyfer llunio cynlluniau datblygu strategol ar lefel ranbarthol, gyda Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforaethol (gweler yr eirfa) eu llunio.
46. Yn ei hanfod felly, bu'r dilyniant dros amser fel a ganlyn: cynlluniau lleol/cynlluniau strwythur (hyd at 1996); cynlluniau datblygu unedol (1996-2005); cynlluniau datblygu lleol, cynlluniau datblygu strategol a Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru (o 2005 ymlaen). Bob tro y mae'r system wedi newid mae'r ddeddfwriaeth ddiwygio wedi darparu ar gyfer trefniadau trosiannol, a oedd yn caniatáu i awdurdodau a oedd yn llunio cynlluniau o dan un system benodol barhau i wneud hynny a symud i'r system newydd ond pan fyddai'r hen gynllun wedi ei gwblhau. Pan ddaeth PCPA 2004 i rym, roedd rhai awdurdodau yng Nghymru yn dal i fod â chynlluniau lleol a berthynai i'r system a fodolai cyn 1996 yn ogystal â rhai oedd â chynlluniau datblygu unedol a berthynai i'r system a fodolai cyn 2004. Mewn gwirionedd, tan 2011 roedd rhai awdurdodau o hyd yn parhau i fod â chynlluniau lleol neu gynlluniau strwythur a fabwysiadwyd o dan y system a fodolai cyn 1996.
47. Darparodd Deddf 1994 ar gyfer trefniadau trosiannol mewn perthynas â statws cynlluniau lleol a chynlluniau strwythur a oedd yn berthnasol nes i awdurdodau fabwysiadu cynlluniau datblygu unedol. Mabwysiadwyd y cynllun datblygu unedol diwethaf yn 2011, ac felly mae'r darpariaethau hynny bellach wedi eu disbyddu a gellir eu diddymu. Mae'r Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru) drafft felly yn hepgor:
 - a. Rhan 1A o Atodlen 2 i TCPA 1990; a
 - b. adran 20(2), (3)(b) ac (c) ynghyd â Rhannau 2 a 3 o Atodlen 5 a pharagraffau 16 a 17 o Atodlen 17 i Ddeddf 1994.
48. Roedd y diwygiadau trosiannol hynny yn eu tro wedi eu diwygio drwy Ddeddf Cynllunio 2008, a oedd hefyd yn ymdrin â'r symud o ddefnyddio cynlluniau datblygu unedol i gynlluniau datblygu lleol. Felly, mae'r Bil hefyd yn gwneud y newidiadau canlyniadol angenrheidiol i'r diwygiadau hynny yn Neddf Cynllunio 2008.
49. Diddymwyd Rhan 2 o TCPA 1990 wedi hynny (gweler Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 6, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005²⁸). Roedd y Gorchymyn a wnaeth beri'r diddymiad yn cynnwys arbediad trosiannol ar gyfer adran 28A o TCPA 1990, nad oes ei angen mwyach. Mae'r Bil hefyd yn diwygio Gorchymyn 2005 felly gan ddileu'r arbediad hwn.

²⁷ Gweler: [Cwmpas Cynlluniau Datblygu | LLYW.CYMRU](#)

²⁸ OS 2005/2847

Cwestiwn 4 - A ydych yn cytuno y gall y trefniadau trosiannol mewn perthynas â chynlluniau lleol a chynlluniau strwythur gael eu diddymu yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, a Deddf Cynllunio 1998?

Cwestiwn 5 - A oes gan hepgor y trefniadau trosiannol mewn perthynas â chynlluniau lleol a chynlluniau strwythur unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Polisiâu ynni mewn cynlluniau datblygu

50. Cyflwynwyd y Bil Cynllunio ac Ynni i Senedd y DU fel Bil Aelod Preifat yn ystod Sesiwn 2007-08. Adeg ei ail ddarlleniad, eglurodd y Gwir Anrh Michael Fallon AS²⁹, noddwr y Bil, fod y Bil yn nodi:

...that councils can—not must, but can—set a minimum requirement for local energy generation and energy efficiency standards that are higher than the minimum.

51. Nod y Bil felly oedd annog microgynhyrchu ac adeiladau sy'n defnyddio ynni yn fwy effeithlon, yn hytrach na chyflwyno gofyniad ar gyrff i weithredu rhwymedigaethau newydd. Gyda'r Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol, daeth Deddf Cynllunio ac Ynni 2008 (Deddf 2008) i rym ar 13 Tachwedd 2008.
52. Ystyriodd Comisiwn y Gyfraith a ddylid nodi darpariaethau o'r fath mewn canllawiau "gan eu bod yn annog ac yn caniatáu cynnwys polisiâu o'r fath, yn hytrach na gosod unrhyw rwymedigaethau llymach ar awdurdodau cynllunio."³⁰ Yn ei adroddiad terfynol, eglurodd Comisiwn y Gyfraith³¹:

...O blith y 33 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad, roedd 31 yn cytuno â'r awgrym hwn.

Ymhlith y rhai a gytunodd, roedd gwahaniaeth barn rhwng y rhai, fel CS [Cyngor Sir] Caerfyrddin, a awgrymodd nad oedd unrhyw werth o gwbl i'r darpariaethau bellach, ac eraill, fel Cyngor Dinas Casnewydd, a awgrymodd fod rhyw werth iddynt o hyd, ond y dylid eu cynnwys ar ffurf canllawiau...

53. Daeth Comisiwn y Gyfraith i'r casgliad y dylid mynd i'r afael yn fwy priodol â Deddf 2008 fel pwnc mewn canllawiau, gan arwain at argymhelliad 6-2 yn eu hadroddiad yn 2018: "Argymhellwn y canlynol: (1) dylai'r darpariaethau a geir ar hyn o bryd yn Neddf Cynllunio ac Ynni 2008 gael eu diddymu..."

²⁹ Gweler Hansard, HC Deb cyfrol 470, colofn 1734, 25 Ionawr 2008

³⁰ Comisiwn y Gyfraith (2020) *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* Law Com No 383, ym mharagraff 6.13

³¹ Comisiwn y Gyfraith (2020) *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* Law Com No 383, ym mharagraffau 6.13 a 6.14

54. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn yn ei hymateb i'r adroddiad, ar y sail bod Polisi Cynllunio Cymru yn nodi bod y materion hyn yn ystyriaethau penodol wrth lunio cynlluniau datblygu strategol a chynlluniau datblygu lleol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlinellu disgwyliadau Llywodraeth Cymru gan awdurdodau cynllunio mewn perthynas ag:
- a. pennu polisiau i ddatblygiadau ddefnyddio ynni o ffynonellau adnewyddadwy a charbon isel lleol³²;
 - b. cynnwys polisiau i bennu safonau effeithlonrwydd ynni sy'n rhagori ar y gofynion mewn rheoliadau adeiladu ar gyfer safleoedd datblygu strategol³³.

Felly, ychydig iawn o wahaniaeth sydd o safbwynt effaith polisi rhwng yr hyn y mae Deddf 2008 yn ceisio ei gyflawni a Pholisi Cynllunio Cymru. Fodd bynnag, oherwydd bod rhaid i awdurdodau cynllunio roi sylw i'r polisiau ym Mholisi Cynllunio Cymru, barn y Llywodraeth oedd³⁴:

...mae hyn yn gosod mwy o ofyniad ar ACau [awdurdodau cynllunio] na'r Ddeddf [Deddf 2008] drwy ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried y materion hyn wrth baratoi eu CDLlau [cynlluniau datblygu lleol].

Mae hyn yn wir hefyd ar gyfer cyd-bwyllgorau corfforaethol, fel y'u cyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n gorfod rhoi sylw i'r polisiau ym Mholisi Cynllunio Cymru wrth lunio cynlluniau datblygu strategol.

55. Mae Rhan 5 o'r Atodlen i'r Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru) drafft felly yn diwygio Deddf 2008 fel na fydd yn gymwys mwyach mewn perthynas â Chymru. Mae hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
56. Gan fod y Llywodraeth eisoes wedi derbyn argymhelliad Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â Deddf 2008, ni cheisir barn ynghylch hynny yn yr ymgynghoriad hwn. Yn hytrach, hoffem ddeall a oes gan ddiwygio Deddf 2008 fel hyn unrhyw ganlyniadau nad ydym wedi eu nodi ond y mae angen inni fod yn ymwybodol ohonynt.

Cwestiwn 6 - A oes gan ddiwygio Deddf Cynllunio ac Ynni 2008 fel nad yw'n gymwys mwyach o ran Cymru unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

³² Llywodraeth Cymru (2021) *Polisi Cynllunio Cymru* (rhifyn 11), paragraff 5.9.11 [ar gael yn - [Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 11 \(llyw.cymru\)](#)]

³³ Llywodraeth Cymru (2021) *Polisi Cynllunio Cymru* (rhifyn 11), paragraff 5.8.5 [ar gael yn - [Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 11 \(llyw.cymru\)](#)]

³⁴ Llywodraeth Cymru (2020) *Tabl ymatebion i bob argymhelliad*, ymateb i argymhelliad 6-2 [ar gael yn: [Ymateb manwl i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith gynllunio yng Nghymru | LLYW. CYMRU](#)]

Y drosedd o dynnu ymaith bridd heb gysyniad

57. Cyflwynwyd y Bil a ddaeth yn Ddeddf Tir Amaethyddol (Symud Ymaith Bridd Arwyneb) 1953 (Deddf 1953) i fynd i'r afael â'r broblem bod uwchbridd yn cael ei dynnu ymaith oddi ar dir amaethyddol, er budd masnachol, gan adael tir na ellir ei drin ymhellach. Pan anfonwyd y Bil i Dŷ'r Arglwyddi, ar ôl iddo gael ei ystyried yn gyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin, eglurodd yr Arglwydd Llewellyn³⁵ fod y Bil yn gyfyngedig o ran ei gwmpas ac mai ei fwriad oedd:

...enable more speedy and effective action to be taken against those people who, for quick profits, strip the top soil from good agricultural land and leave it derelict... First, it applies only where the people intend to sell the soil. Secondly, the removal of the soil must constitute development under the Town and Country Planning Act [1947], and, thirdly, it must have been carried out without planning permission under that Act. In fact, the only people who will, I hope, be affected by the Bill are those who try, through a weakness in the procedure under the Town and Country Planning Act, to make quick profits by despoiling one of our greatest national assets, our agricultural land.

58. Mae Deddf 1953 yn parhau mewn grym. O dan adran 1, mae'n drosedd tynnu ymaith fwy na phum llath giwbig³⁶ o bridd o dir amaethyddol mewn unrhyw gyfnod o dri mis gyda'r bwriad o'i werthu, ond dim ond pan fo gweithgaredd o'r fath yn gyfystyr â 'datblygiad' ("development") o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990³⁷ (TCPA 1990) ac ni chafwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer. Gellir erlyn person sy'n cyflawni trosedd o dan Ddeddf 1953 ac, ar euogfarn ddiannod, ei gosbi drwy ddirwy o hyd at Lefel 3 neu hyd yn oed drwy gyfnod o garchar³⁸ (gweler adran 2), ond dim ond gyda chydysyniad y Twrnai Cyffredinol neu'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (gweler adran 3)³⁹ y gellir dwyn erlyniad.
59. Pan fo person yn ymgymryd â datblygiad heb ganiatâd cynllunio, gall yr awdurdod cynllunio perthnasol ymdrin â hyn drwy gymryd camau gorfodi. Os yw'n hwylus, dylid rhoi terfyn ar y datblygiad anawdurdodedig hwnnw ar unwaith, serch hynny, mae angen amser ar yr awdurdod cynllunio i drefnu ymateb gorfodi effeithiol, a gellir rhoi 'hysbysiad stop dros dro' ("temporary stop notice") o dan adran 171E o TCPA 1990. Yn unol â'r hysbysiad hwnnw, rhaid atal gweithgaredd sy'n torri rheolaeth gynllunio ar unwaith. Yn ystod yr uchafswm o 28 o ddiwrnodau pan all hysbysiad stop dros dro atal y datblygiad anawdurdodedig, gellid cymryd camau gorfodi drwy gyhoeddi:

³⁵ Gweler Hansard, 10 Gorffennaf 1952 cyfrol 177 colofnau 1005-10

³⁶ sy'n 3.822 metr ciwbig

³⁷ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1947 yn wreiddiol, ond diwygiwyd hyn wedyn i Ddeddf 1990 gan Ddeddf Cynllunio (Diwygiadau Canlyniadol) 1990

³⁸ bydd Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn diwygio Deddf 1953 er mwyn diddymu'r atebolrwydd i gyfnod o garchar (gweler paragraff 34 o Atodlen 34 a Rhan 9 o Atodlen 37 i'r Ddeddf honno) ond, ar adeg cynnal yr ymgynghoriad hwn, nid yw'r diwygiad hwnnw wedi ei ddwyn i rym eto

³⁹ argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylid dileu'r gofyniad i gael caniatâd ar gyfer erlyn (gweler para 6.58 o *Consents to Prosecution* (1998) sydd ar gael yn: [LC255CON.PDF \(lawcom.gov.uk\)](https://www.lawcom.gov.uk/LC255CON.PDF)). Nid yw'r argymhelliad hwn wedi ei weithredu hyd yma.

- a. 'hysbysiad rhybudd gorfodi' ("*enforcement warning notice*") o dan adran 173ZA o TCPA 1990;
 - b. 'hysbysiad gorfodi' ("*enforcement notice*") o dan adran 172 o TCPA 1990, y gall 'hysbysiad stop' ("*stop notice*") gyd-fynd ag ef o dan adran 183 o TCPA 1990 er mwyn sicrhau na all y datblygiad anawdurdodedig ailddechrau cyn i'r cyfnod cydymffurfio a bennir yn yr hysbysiad gorfodi ddod i ben.
60. Gall torri camau gorfodi arwain at erlyniad o dan adrannau 171G, 179 a 187 o TCPA 1990; gall euogfarn arwain at ddirwy ddiderfyn, ond nid cyfnod o garchar. Cafodd y pwerau i atal datblygiadau anawdurdodedig yn gyflym, fel hysbysiadau stop, eu cyflwyno'n wreiddiol yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968, gan ddod i effaith ar 1 Ionawr 1969. Cyflwynwyd hysbysiadau stop dros dro yn ddiweddarach, drwy Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Deellir mai ychydig iawn, os o gwbl, o erlyniadau sydd wedi eu dwyn o dan Ddeddf 1953 ers 1969. Yn ddi-os, yr arfer heddiw yw mynd i'r afael ag achosion o dorri'r gofynion ar gyfer caniatâd cynllunio drwy TCPA 1990.
61. O ganlyniad, rydym o'r farn, i'r graddau y mae'n gymwys yng Nghymru, nad yw Deddf 1953 yn ymarferol ddefnyddiol mwyach. Mae'r Bil felly yn datgymhwyso Deddf 1953 mewn perthynas â thir yng Nghymru (gan adael y Ddeddf yn weithredol ar gyfer tir yn Lloegr yn unig).

Cwestiwn 7 - A ydych yn cytuno na ddylai Deddf Tir Amaethyddol (Symud Ymaith Bridd Arwyneb) 1953 fod yn gymwys mwyach o ran Cymru?

Cwestiwn 8 - A oes gan ddileu cymhwysiad Deddf 1953 i dir amaethyddol yng Nghymru unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Ad-drefnu llywodraeth leol

62. O 1 Ebrill 1996, nid oedd llywodraeth leol yng Nghymru bellach yn gweithredu ar strwythur dwy haen o siroedd a dosbarthau ond symudodd i un haen o awdurdodau unedol. Mae pob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru yn awdurdodau unedol, er eu bod yn cael eu disgrifio fel cynghorau dinas, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Maent yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â sawl maes o fywyd cyhoeddus gan gynnwys addysg, tai, cynllunio, priffyrdd a pharcio, gwasanaethau cymdeithasol, trethi (casglu'r dreth gyngor ac ardrethi busnes), budd-daliadau (budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor), casglu a gwaredu gwastraff, yn ogystal â hamdden a diwylliant, etholiadau, trafnidiaeth (fel trafnidiaeth gyhoeddus a chysgodfannau bysiau), iechyd yr amgylchedd a thrwyddedu, a chofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau.
63. Rhoddwyd effaith i'r symudiad tuag at awdurdodau unedol gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (Deddf 1994) a ddiddymodd yr wyth sir a'r 37 o ddosbarthau llywodraeth leol a oedd wedi eu ffurfio ym 1974.

Pwyllgorau gwasanaethau cymdeithasol

64. Mae adran 101(10A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972), a wnaeth ddarpariaeth mewn perthynas â phwyllgorau gwasanaethau cymdeithasol, yn croesgyfeirio at ddarpariaeth a ddiddymwyd gan Ddeddf Plant 2004 ac a ddylai hefyd fod wedi ei diddymu bryd hynny. Felly, mae'r Bil yn hepgor adran 101(10A) o Ddeddf 1972, a'r ddarpariaeth yn Neddf 1994 a fewnosododd is-adran (10A) yn wreiddiol i adran 101 o Ddeddf 1972.

Corff Gweddilliol Cymru

65. Sefydlodd Deddf 1994 Gorff Gweddilliol Cymru i ddal asedau awdurdodau wedi eu diddymu nad oedd modd eu trosglwyddo'n hawdd i awdurdod newydd fel rhan o ad-drefniant Deddf 1994 o lywodraeth leol yng Nghymru. Roedd y Corff Gweddilliol wedi cael gwared ar yr asedau hynny erbyn 1998, ac mae'r Corff ei hun wedi ei ddiddymu ers hynny⁴⁰, felly mae'r darpariaethau hyn bellach wedi eu disbyddu.
66. Mae rhai o'r darpariaethau yn Rhan 5 o Ddeddf 1994 yn ymdrin â throsglwyddo neu ddiswyddo staff o awdurdodau dirymedig. Mae adran 41 yn ymwneud â pharhad cyflogi staff; adran 42 yn ymwneud â throsglwyddo staff i'r cyngorau newydd neu'r Corff Gweddilliol; adran 43 yn ymwneud ag iawndal am golli cyflogaeth sy'n codi oherwydd y Ddeddf; adran 44 yn ymwneud â thaliadau diswyddo; ac mae adran 45 yn ymwneud â thaliadau iawndal eraill sy'n gysylltiedig â chontractau cyflogaeth a derfynwyd o ganlyniad i Ddeddf 1994. Er bod y Bil yn darparu ar gyfer rhai mân ddiwygiadau i'r darpariaethau hyn sy'n gysylltiedig â diddymu'r Corff Gweddilliol, nid yw'n glir a yw unrhyw gyflogaeth bresennol neu drefniadau eraill yn ddibynnol mewn unrhyw ffordd ar weithrediad presennol y darpariaethau hyn. Os nad yw hynny'n wir, gellid diddymu'r darpariaethau hyn yn llawn, neu o leiaf, yn ddarostyngedig i arbedion neu ddarpariaeth drosiannol.
67. Mae paragraff 27 o'r Atodlen i'r Bil yn hepgor y darpariaethau a ddisbyddwyd mewn perthynas â'r Corff Gweddilliol. Mae diwygiadau canlyniadol pellach, sy'n hepgor cyfeiriadau at y Corff Gweddilliol, yn cael eu gwneud i:
- a. Deddf Rhenti 1977;
 - b. Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982;
 - c. Deddf Tai 1988;
 - d. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;
 - e. Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;
 - f. Deddf yr Amgylchedd 1995;
 - g. Deddf Tai 1996;
 - h. Deddf Llywodraeth Cymru 1998; ac
 - i. Deddf Llywodraeth Leol 2003.

⁴⁰ Gweler Gorchymyn Corff Gweddilliol Cymru (Dirwyn i Ben) 1998 (OS 1998/2859)

Cynlluniau datganoli a chydweithio

68. Darparodd Rhan 3 o Ddeddf 1994 ar gyfer datganoli (“*decentralisation*”) a chydweithio. O dan y trefniadau hyn, gallai prif gynghorau newydd sefydlu pwyllgorau ardal i gyflawni swyddogaethau’r cyngor drwy gyfrwng ‘cynllun datganoli’ (“*decentralisation scheme*”), a gallai’r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddydau mewn perthynas â threfniadau cydweithio a gwybodaeth gysylltiedig i brif gynghorau.
69. Roedd rhaid gwneud ceisiadau am gynlluniau datganoli erbyn 1 Ionawr 1996 (gan gael eu cymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol dim hwyrach na 1 Gorffennaf 1996), a dim ond hyd at 31 Mawrth 1999 y gallai’r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddydau - felly mae pob un o’r trefniadau hyn bellach wedi ei ddisbyddu.⁴¹ O ganlyniad, mae’r Bil yn hepgor Rhan 3 o Ddeddf 1994, ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol, gan gynnwys i Ddeddf Addysg 1996.

Cwestiwn 9 - A ydych yn cytuno y dylid gwneud y diwygiadau mewn perthynas â phwyllgorau gwasanaethau cymdeithasol?

Cwestiwn 10 - A ydych yn cytuno y dylid diddymu’r darpariaethau a ddisbyddwyd mewn perthynas â Chorff Gweddilliol Cymru?

Cwestiwn 11(a) - A oes unrhyw reswm pam na ellir diddymu adrannau 41 i 45 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 yn llawn?

Cwestiwn 11(b) - Os na ellir diddymu adrannau 41 i 45 eto, a oes pwynt yn y dyfodol pan fyddant yn addas i’w diddymu (er enghraifft, am fod pob contract cyflogaeth y gallent fod yn gymwys iddo wedi peidio â bodoli)?

*Cwestiwn 12 - A ydych yn cytuno y dylid diddymu’r darpariaethau a ddisbyddwyd mewn perthynas â datganoli (“*decentralisation*”) a chydweithio?*

Cwestiwn 13 - A oes gan y diwygiadau a nodir yng nghwestiynau 9, 10 ac 11 unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Datganiadau o anghenion addysgol arbennig

70. Mae adran 5 o Ddeddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986 (Deddf 1986) yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phersonau ag anabledd sy’n gadael addysg lawnamser pan fônt o dan bedair ar bymtheg mlwydd ac wyth mis oed ac sydd yn flaenorol wedi cael datganiad o anghenion addysgol arbennig (yng Nghymru) neu gynllun addysg, iechyd a gofal (yn Lloegr).

⁴¹ Darperir bellach ar gyfer trefniadau cyfatebol, mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig, gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

71. Mae adran 5 o Ddeddf 1986 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sydd wedi cael ei hysbysu am ymadawiad y person o addysg lawnamser asesu angen y person am wasanaethau gan yr awdurdod o dan “y deddfiadau lles” (*“the welfare enactments”*). Mae adran 5 hefyd yn cynnwys dyletswyddau hysbysu. Yng Nghymru, mae “y deddfiadau lles” yn golygu Rhannau 4 a 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014).
72. Mae Deddf 2014 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i asesu anghenion oedolion a phlant pan fo’n ymddangos y gall fod angen gofal a chymorth ar yr oedolion a’r plant hynny. Mae adran 19 o’r Ddeddf hon yn cynnwys y ddyletswydd mewn perthynas ag oedolion ac adran 21 y ddyletswydd mewn perthynas â phlant.
73. Mae’r dyletswyddau asesu hyn yn gymwys yn ehangach na’r dyletswyddau asesu yn adran 5 o Ddeddf 1986, gan nad ydynt wedi eu cyfyngu i bersonau ag anableddau sydd wedi cael datganiad o anghenion arbennig ac sydd o dan oedran penodol. Serch hynny, caiff sefyllfa arbennig plant ag anableddau ei chydnabod yn benodol gan adran 21 o Ddeddf 2014, gan fod rhaid i asesiad o dan yr adran honno ddechrau o’r rhagdybiaeth bod angen gofal a chymorth ar blant ag anableddau (gweler adran 21(7)). Mae’r Cod Ymarfer sy’n ymwneud ag asesu anghenion unigolion o dan Ddeddf 2014⁴² yn nodi proses ar gyfer asesu anghenion unigolyn o ran gofal a chymorth a phroses adolygu ac ailasesu a fydd yn gymwys i asesiadau.
74. Pan fo asesiad o anghenion person wedi ei gynnal o dan adran 19 neu adran 21 o Ddeddf 2014, bydd Rhan 4 o’r Ddeddf honno a rheoliadau a wneir oddi tani yn pennu’r camau nesaf. Mae Rhan 6 o Ddeddf 2014 yn ymdrin â dyletswyddau awdurdod lleol tuag at blentyn sydd yn ei ofal neu sydd wedi ei letya ganddo.
75. Mae’r Bil yn datgymhwyso adran 5 o Ddeddf 1986 i Gymru, i ddileu dyletswyddau awdurdodau lleol yng Nghymru i gynnal asesiadau oddi tani. Rydym o’r farn bod rôl asesiad o dan yr adran honno nawr yn cael ei chyflawni gan asesiadau o dan adrannau 19 ac 21 o Ddeddf 2014, sydd hefyd yn gymwys i grŵp ehangach o bersonau. Ymhellach, mae asesiadau o dan adran 5 o Ddeddf 1986 yn gysylltiedig â Rhannau 4 a 6 o Ddeddf 2014 beth bynnag.
76. Ystyriaeth ychwanegol yw mai dim ond i bersonau sydd wedi cael datganiadau o anghenion addysgol arbennig o dan Ddeddf Addysg 1996 y mae adran 5 o Ddeddf 1986 yn berthnasol. Cafodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 wared ar y system honno, gan gyflwyno yn ei lle fframwaith newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Felly, bydd nifer y personau â datganiadau o anghenion addysgol arbennig, y gallai adran 5 o Ddeddf 1986 fod yn berthnasol iddynt, yn lleihau’n raddol wrth i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 gael ei gweithredu’n llawn.

⁴² Llywodraeth Cymru (2015) *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*. Cod Ymarfer Rhan 3 (asesu anghenion unigolion) [Ar gael yn: [deddf-gwasanaethau-cymdeithasol-a-llesiant-cymru-2014.pdf](https://www.llyw.cymru/legislation/cymru-2014.pdf) (llyw.cymru)]

77. Gallai Llywodraeth Cymru ddiwygio adran 5 o Ddeddf 1986 fel y byddai'n gweithredu o fewn cyd-destun Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Serch hynny, oherwydd y rhesymau a nodir uchod, mae'r Llywodraeth o'r farn bod asesiadau o dan Ddeddf 2014 nawr yn cyflawni rôl asesiadau o dan Ddeddf 1986, ac felly nad oes angen mwyach i adran 5 o Ddeddf 1986 fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru.
78. O ganlyniad, mae'r Bil yn diwygio adran 5 o Ddeddf 1986 fel nad yw'n gymwys mewn perthynas â Chymru (gweler paragraff 40(d) o'r Atodlen i'r Bil) ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol i adran 5 i ddileu cyfeiriadau anarferedig ac sydd felly'n ddiangen.
79. Yn sgil datgymhwyso adran 5 o Ddeddf 1986 i Gymru, mae'r Bil hefyd yn diwygio cyfeiriadau perthnasol yn Neddf Addysg 1996 a Deddf 2014, gan na fydd adran 5 yn cynnwys mwyach swyddogaethau addysg na gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru.

Cwestiwn 14 - A ydych yn credu bod unrhyw angen yn dal i fod i adran 5 o Ddeddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986 fod yn gymwys i Gymru?

Cwestiwn 15 - Os caiff adran 5 o Ddeddf 1986 ei datgymhwyso i Gymru, a ydych yn credu bod angen ei chynnal dros dro er budd posibl y grŵp o bersonau sydd wedi cael datganiadau o anghenion addysgol arbennig o dan Ddeddf Addysg 1996?

Cwestiwn 16] - A oes gan ddiddymu adran 5 o Ddeddf 1986 unrhyw ganlyniadau eraill y dylid eu hystyried ymhellach?

Byrddau Cynllunio Parciau Cenedlaethol

80. Mae tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru: Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro, ac Eryri. Mae'r rhain, a'r 10 yn Lloegr, wedi eu dynodi o dan Ran 2 o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.
81. Ers i'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru gael eu dynodi gyntaf yn y 1950au, mae nifer o newidiadau wedi bod i'r trefniadau gweinyddol ar gyfer rheoli'r Parciau, gan gynnwys y rhai a wnaed gan Ddeddf Cefn Gwlad 1968, Deddf Llywodraeth Leol 1972, Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a Deddf yr Amgylchedd 1995 (Deddf 1995). Cyn y newidiadau a wnaed gan Ddeddf 1995, roedd gan bob Parc Cenedlaethol yng Nghymru Bwyllgor Parc Cenedlaethol⁴³. Roedd hefyd bwerau i sefydlu byrddau

⁴³ Sefydlwyd o dan baragraff 5 o Atodlen 17 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

cynllunio ar y cyd neu fyrddau cynllunio arbennig ar gyfer Parciau Cenedlaethol⁴⁴, ond nid oedd y pwerau hynny wedi eu defnyddio yng Nghymru.

82. Rhoddodd adran 63 o Ddeddf 1995 y pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud gorchymyn yn sefydlu awdurdod Parc Cenedlaethol lle mae awdurdod yn bodoli eisoes ar gyfer Parc Cenedlaethol neu mewn cysylltiad â dynodi ardal yn Barc Cenedlaethol newydd. Ystyr awdurdod sy'n bodoli eisoes yn y cyd-destun hwn oedd bwrdd cynllunio ar y cyd, bwrdd cynllunio arbennig neu Bwyllgor Parc Cenedlaethol⁴⁵. Sefydlodd Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995⁴⁶ (Gorchymyn 1995) awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar gyfer y Parciau yng Nghymru, gan gael effaith o 23 Tachwedd 1995 ymlaen. Ysgwyddodd yr awdurdodau eu swyddogaethau o sylwedd, a pheidiodd y Pwyllgorau Parciau Cenedlaethol â bodoli, ar 1 Ebrill 1996.
83. Mae adran 64 o Ddeddf 1995, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yn ymwneud yn bennaf â'r pontio o fyrddau cynllunio ar y cyd neu fyrddau cynllunio arbennig i awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Roedd is-adrannau (1) i (5) yn ymdrin â'r sefyllfa pan oedd bwrdd eisoes wedi ei sefydlu ar gyfer Parc Cenedlaethol, ond ni chawsant unrhyw effaith erioed gan na sefydlwyd byrddau o'r fath yng Nghymru erioed. Mae'r Bil felly'n diddymu'r darpariaethau hyn, gan eu bod yn ddiangen.
84. Roedd adran 64(6) a (7) yn ymdrin â'r sefyllfa pan oedd camau wedi eu cymryd tuag at sefydlu bwrdd ond na chwblhawyd y gwaith, a phan oedd awdurdod Parc Cenedlaethol yn lle hynny i gael ei sefydlu cyn 31 Mawrth 1997. Er enghraifft, roedd ymgynghoriad ar sefydlu'r bwrdd yn cael ei drin fel ymgynghoriad ar sefydlu'r awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae'r Bil felly'n diddymu'r is-adrannau hynny, gan y byddent wedi bod yn gymwys i bethau a wnaed yn ystod cyfnod a ddaeth i ben amser hir yn ôl a chan eu bod nawr wedi eu disbyddu.
85. Diffiniodd is-adran (9) o adran 64 dermau a ddefnyddiwyd yn is-adrannau (1) i (7), a gwnaeth adran 75(2) ddarpariaeth ar gyfer gorchmynion o dan adran 64. Mae'r Bil felly'n diddymu'r darpariaethau hyn hefyd gan y byddant yn anarferedig pan fydd y pwerau o sylwedd wedi eu diddymu.
86. Yn adran 65 o Ddeddf 1995, mae is-adran (3) yn gwneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau awdurdod Parc Cenedlaethol yn ystod unrhyw gyfnod rhwng sefydlu'r awdurdod a phan ddaw'r awdurdod yn awdurdod cynllunio lleol. Addasodd is-adran (4) is-adran (3) ar gyfer Cymru, ond mewn perthynas â phethau a wnaed cyn 1 Ebrill 1996 yn unig. Mae is-adran (4) nawr wedi ei disbyddu a gellir ei diddymu hefyd.
87. Mae'r diffiniad o "awdurdod sy'n bodoli eisoes" (*existing authority*) yn cynnwys cyfeiriadau at bwerau i sefydlu byrddau cynllunio ar y cyd a byrddau cynllunio arbennig ar gyfer Parciau Cenedlaethol yng Nghymru nas defnyddiwyd erioed ac nad

⁴⁴ Ym mharagraffau 1 i 3A o Atodlen 17 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac adran 2 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

⁴⁵ Gweler adran 79(1) o Ddeddf 1995.

⁴⁶ 1995/2803

ydynt ar gael mwyach. Mae'r Bil felly'n diddymu'r darpariaethau hyn gan eu bod yn ddiangen.

88. Yn Atodlen 7 i Ddeddf 1995, mae paragraff 2(2)(b) a (4) yn cyfeirio at bethau a wneir gan fwrdd cynllunio ar y cyd neu fwrdd cynllunio arbennig ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r Bil yn diddymu'r darpariaethau hyn gan na chawsant effaith erioed ac ni allant gael unrhyw effaith mwyach.
89. Yn Atodlen 10 i Ddeddf 1995, diwygiodd paragraff 30 ddarpariaeth yn Atodlen 8 i Ddeddf Trydan 1989. Diwygiwyd y ddarpariaeth honno yn ogystal gan baragraff 22 o Atodlen 6 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 ("diwygiad 1994"), nad oedd mewn grym pan basiwyd Deddf 1995. Roedd paragraff 30 o Atodlen 10 felly'n cynnwys diwygiadau gwahanol ar gyfer y sefyllfaoedd pan ddaeth i rym cyn diwygiad 1994, ar ei ôl neu ar yr un pryd ag ef. Mewn gwirionedd, daeth paragraff 30 i rym cyn diwygiad 1994, felly nid oedd erioed angen y diwygiadau ar gyfer y sefyllfaoedd eraill⁴⁷. O ganlyniad, mae'r Bil yn diddymu'r darpariaethau hyn, sydd ym mharagraff 30(4) a (5) o Atodlen 10.
90. Yn Atodlen 23 i Ddeddf 1995, darpariaethau trosiannol oedd paragraffau 7, 11 a 15 ar gyfer achosion pan oedd byrddau cynllunio ar y cyd a byrddau cynllunio arbennig wedi eu sefydlu ar gyfer Parciau Cenedlaethol yng Nghymru. Ni ddaethpwyd â'r paragraffau hynny i rym. Ni ddigwyddodd y sefyllfa yr oeddent yn gymwys iddi, a hyd yn oed pe bai wedi digwydd byddai'r paragraffau nawr wedi eu disbyddu, felly mae'r Bil yn eu diddymu.

Cwestiwn 17 - A ydych yn cytuno y dylai'r Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) ddiddymu'r darpariaethau yn Neddf yr Amgylchedd 1995?

Cwestiwn 18 - A oes gan ddiwygio Deddf 1995 unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Awdurdod Datblygu Cymru

91. Mae Biliau Cyfraith Statud (Diddymiadau) wedi cael eu hystyried yn rheolaidd gan Senedd y DU, fel arfer yn dilyn adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith. Yn adroddiad diweddaraf⁴⁸ Comisiwn y Gyfraith sy'n cynnig Bil o'r fath, yn 2015, nodwyd:

The Welsh Development Agency Act 1997 was a short Act passed to increase the financial limits of the Welsh Development Agency. This was achieved by amendment to the Welsh Development Agency Act 1975. The Agency was, however, abolished in 2005 and its functions

⁴⁷ Daethpwyd â pharagraff 30 i rym gan erthygl 2(1) o OS 1995/2950 ar 23 Tachwedd 1995; daethpwyd â diwygiad 1994 i rym gan erthygl 3 o OS 1996/396 ar 1 Ebrill 1996.

⁴⁸ Comisiwn y Gyfraith a Chomisiwn Cyfraith yr Alban (2015) *Statute Law Repeals: Twentieth Report - Draft Statute Law (Repeals) Bill* Law Com No 357; Scot Law Com No 243 [ar gael yn: [Statute Law Repeals: Twentieth Report - Draft Statute Law \(Repeals\) Bill](#)]

transferred to the [National] Assembly before being transferred to Welsh Ministers. The provisions of the 1975 Act that were amended by the 1997 Act have also been repealed. The 1997 Act thereupon became spent and it may therefore now be repealed as obsolete.

92. Roedd Awdurdod Datblygu Cymru yn gyfrifol am annog datblygu busnes a buddsoddi yng Nghymru, clirio tir diffaith ac annog twf busnesau lleol. Fel y nododd Comisiwn y Gyfraith, diddymwyd Awdurdod Datblygu Cymru yn 2006 a throsglwyddwyd ei swyddogaethau i Weinidogion Cymru⁴⁹. Llywodraeth Cymru sydd nawr yn gyfrifol am gefnogi ac annog datblygu busnes a buddsoddi yng Nghymru.
93. Nid yw Llywodraeth y DU wedi bwrw ymlaen â Bil drafft 2015 Comisiwn y Gyfraith eto, ond wrth lunio'r drafft hwn o Fil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru) mae cynnig Comisiwn y Gyfraith wedi ei ystyried. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1997 wedi ei disbyddu, ac felly mae paragraff 45 o'r Atodlen i'r Bil yn diddymu'r Ddeddf honno.
94. Cynyddodd Deddf Diwydiant 1979 (Deddf 1979) derfynau benthyca'r Bwrdd Menter Cenedlaethol, Awdurdod Datblygu'r Alban ac Awdurdod Datblygu Cymru. Ynghyd ag Awdurdod Datblygu Cymru, mae'r ddau gorff arall wedi peidio â bodoli hefyd. Mae Deddf 1979 wedi ei ddiddymu eisoes i'r graddau y mae'n gymwys i'r Bwrdd Menter Cenedlaethol ac Awdurdod Datblygu'r Alban. Mae'n parhau i fod heb ei ddiddymu mewn perthynas ag Awdurdod Datblygu Cymru yn unig. Gan nad yw'r corff hwn yn bodoli mwyach, mae Deddf 1979 nawr yn anarferedig hefyd. Mae paragraff 44 o'r Atodlen i'r Bil felly'n diddymu Deddf 1979 hefyd.
95. Mae'r Bil hefyd (ym mharagraff 46) yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 1998 mewn perthynas â diddymu Awdurdod Datblygu Cymru:
 - a. yn gyntaf, drwy hepgor darpariaethau a ddisbyddwyd o Ran 1 o Atodlen 14 i'r Ddeddf honno a oedd wedi diwygio Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975;
 - b. yn ail, drwy hepgor darpariaethau a ddisbyddwyd o Ran 2 o Atodlen 14 a oedd wedi diwygio deddfiadau eraill mewn perthynas ag Awdurdod Datblygu Cymru.

Cwestiwn 19 - A ydych yn cytuno y dylid diddymu Deddf Diwydiant 1979 a Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1997?

Cwestiwn 20 - A oes gan ddiddymu Deddf 1979 a Deddf 1997 unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Bwrdd Datblygu Cymru Wledig

⁴⁹ Gwnaed y trosglwyddiad hwn gan Orchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005 (OS 2005/3226), ac yna i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

96. Cyflwynwyd Bil Datblygu Cymru Wledig yn Senedd y DU yng ngwanwyn 1976. Eglurodd yr Arglwydd Ganghellor (ar y pryd)⁵⁰ mai diben cyffredinol y Bil oedd:

...the promotion of the economic and social wellbeing of the people of rural Wales. Its particular purpose is the welfare of that part of rural Wales - Mid-Wales - which has suffered so severely from rural depopulation in past generations.

97. Pasiwyd y Bil a sefydlodd Deddf Datblygu Cymru Wledig 1976 (Deddf 1976) Fwrdd Datblygu Cymru Wledig. Ymysg materion eraill, cymerodd y Bwrdd hwnnw drosodd waith Corfforaeth Datblygu Canolbarth Cymru a'r Comisiwn Datblygu.
98. Fel rhan o'i ystyriaeth o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag adfywio trefol a datblygu gwledig, nododd Comisiwn y Gyfraith⁵¹ y canlynol:

...Aeth Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 a [Deddf 1976] ati i sefydlu Bwrdd Datblygu Cymru ("WDA") a darparu rhagor o bwerau adfywio yng Nghymru. Estynwyd pwerau Bwrdd Datblygu Cymru o dan Ddeddf 1975 gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, ac mae'r rhain wedi cael eu pasio erbyn hyn i Weinidogion Cymru. Hefyd aeth Deddf 1998 ati i ddiddymu Bwrdd Datblygu Cymru Wledig, Awdurdod Tir Cymru a Thai Cymru.

99. Mae'r mwyafrif o ddarpariaethau Deddf 1976 wedi eu diddymu eisoes (yn bennaf gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (GoWA 1998)), gan adael adrannau 23, 26 a 35 yn unig. Gan y peidiodd Banc Datblygu Cymru Wledig â bodoli yn 1998, ystyrir nawr nad yw'r darpariaethau hyn sy'n weddill ymarferol ddefnyddiol mwyach a'u bod wedi eu disbyddu. Felly, ymddengys yn briodol eu dileu o'r llyfr statud, ynghyd â'r darpariaethau yn Neddf 1998 a ddiddymodd y Banc Datblygu.
100. Mae'r Bil felly'n diddymu Deddf 1976 (sydd â'r effaith o ddiddymu'r darpariaethau olaf sy'n weddill) ac yn diwygio GoWA 1998 er mwyn:
- hepgor adrannau 129(1), 130(1) a (3) i (5), 131(2) i (4) ac adran 133 - sy'n ymwneud â'r Banc Datblygu yn dod i ben,
 - diwygio adran 154 i ddileu'r cyfeiriadau sydd wedyn yn ddiangen at adrannau 130 a 133, ac
 - hepgor diwygiad sydd nawr wedi ei ddisbyddu a wnaed gan GoWA 1998 i Ddeddf y Comisiynydd Seneddol 1967.

Cwestiwn 21 - A ydych yn cytuno y dylid diddymu Deddf Datblygu Cymru Wledig 1976?

⁵⁰ Gweler Hansard, HL Deb. cyfrol 370, colofn 651, 6 Mai 1976

⁵¹ Comisiwn y Gyfraith (2017) *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru* Papur Ymgynghori Law Com No 233, paragraff 1.37 [ar gael yn: [Cyfraith Cynllunio yng Nghymru | Comisiwn y Gyfraith](#)]

Cwestiwn 22 - A oes gan ddiddymu Deddf 1976 unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Awdurdod Tir Cymru

101. Sefydlwyd Awdurdod Tir Cymru yn 1976 o dan Ddeddf Tir Comin 1975. Ei rôl oedd prynu tir ar ran Llywodraeth y DU ar gyfer datblygu diwydiannol neu fathau eraill o ddatblygu, er mwyn annog twf economaidd. Fel yr eglurodd Comisiwn y Gyfraith (gweler y dyfyniad o dan baragraff 98 uchod), trosglwyddwyd ei swyddogaethau ar gyfer Cymru i Awdurdod Datblygu Cymru yn 1998 ac yna ei ddiddymu. Trosglwyddwyd swyddogaethau Awdurdod Datblygu Cymru i Weinidogion Cymru ar ôl i Awdurdod Datblygu Cymru gael ei ddiddymu.
102. Cafodd swyddogaethau'r Awdurdod Tir eu trosglwyddo a daethpwyd â'i weithrediad i ben drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (GoWA 1998). Nid oes angen rhai o'r darpariaethau hynny yn GoWA 1998 mwyach. Felly, mae paragraff 49 o'r Atodlen i'r Bil yn diwygio GoWA 1998 fel a ganlyn:
- daeth adran 134 â gweithrediad yr Awdurdod Tir i ben a chan fod hynny nawr wedi digwydd mae'r ddarpariaeth hon wedi ei disbyddu a gellir felly ei hepgor;
 - mae adran 135(1) yn disgrifio cysylltiad rhwng adrannau 134 a 135. Bydd y Bil yn ei hepgor gan fod potensial iddi gamarwain unwaith y mae adran 134 wedi ei hepgor;
 - gwnaeth adran 136 ddarpariaeth ynghylch trosglwyddo staff, eiddo, etc. o Awdurdod Tir Cymru i Awdurdod Datblygu Cymru. Nawr bod Awdurdod Tir Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru ill dau wedi peidio â bodoli, mae'r rhan fwyaf o'r adran wedi ei disbyddu. Mae'r Bil felly'n hepgor adran 136(1), (3) i(5). Mae adran 136(2) yn cael ei chadw gan ei bod yn darparu cymorth o ran sefydlu tystiolaeth o drosglwyddiadau eiddo;
 - mae adran 137 yn ymdrin â darpariaethau arbed a darpariaethau trosiannol. Gellir hepgor y croesgyfeiriad at adran 134 yn is-adran (1) gan fod y Bil yn diddymu adran 134, ac mae is-adrannau (2) i (4) yn ddarpariaethau trosiannol a ddisbyddwyd y gellir nawr eu hepgor hefyd;
 - darparodd adran 139 bŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo bod yr Awdurdod Tir yn peidio â bodoli. Mae'r pŵer hwn wedi ei arfer⁵² ac felly mae'r adran hon wedi ei disbyddu. Bydd yn cael ei hepgor gan y Bil;
 - arferodd yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer o dan adran 139 (Diddymu etc.) i gyfarwyddo bod Awdurdod Tir Cymru yn peidio â bodoli felly mae'r adran hon wedi ei disbyddu a gellir ei hepgor. Gellir felly hepgor y cyfeiriadau at adran 139(3) yn adran 154 o GoWA 1998 (sy'n gwneud darpariaeth ynghylch sut y gellir arfer gorchmynion a chyfarwyddydau o dan y Ddeddf) hefyd, yn ogystal â chyfeiriadau at bwerau yn adran 136(4).

⁵² gweler Gorchymyn Awdurdod Tir Cymru (Diddymu) 1999 (O.S 1999/372)

Cwestiwn 23 - A ydych yn cytuno y dylid diddymu'r darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 sy'n ymwneud ag Awdurdod Tir Cymru?

Cwestiwn 24 - A oes gan ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 1998 mewn perthynas ag Awdurdod Tir Cymru unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Hawliau tramwy cyhoeddus sydd heb eu cofnodi

103. Pasiwyd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Deddf 2000) i wella mynediad cyhoeddus i gefn gwlad agored a thir comin cofrestredig wrth gysylltu buddiannau dilys y rhai sy'n berchen ac yn rheoli'r tir dan sylw, gan gynnwys drwy ddiwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â hawliau tramwy.
104. Nid yw adrannau 53 i 56 o Ddeddf 2000 erioed wedi eu cychwyn (ac felly nid ydynt mewn grym). Maent yn rhagnodi dyddiad cau (1 Ionawr 2026) ar gyfer cofnodi llwybrau troed a llwybrau ceffylau a grëwyd cyn 1949 (gyda rhai eithriadau) ar fapiau diffiniol⁵³. Mae'r darpariaethau'n darparu y byddai hawliau tramwy cyhoeddus dros lwybrau troed a llwybrau ceffylau o'r fath nad ydynt wedi eu cofnodi erbyn y dyddiad cau yn cael eu diddymu. Mae adran 56 o Ddeddf 2000 yn darparu y gellir estyn y dyddiad cau drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru (mewn perthynas â Chymru). Nid oes unrhyw reoliadau o'r fath wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru gan nad yw adrannau 53 i 56 erioed wedi eu dwyn i rym.
105. Ers 2001 mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithredu darpariaethau o dan Ddeddf 2000, ond nid yw darpariaethau penodol wedi eu gweithredu eto, yn enwedig y rhai nad ydynt yn berthnasol mwyach neu'n cael eu hystyried yn gydnaws â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynediad. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau nad ydynt yn angenrheidiol mwyach neu sy'n ddwys o ran adnoddau ar gyfer awdurdodau lleol. Yn 2017 cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad *Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy*⁵⁴. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys cynigion i ddatblygu system gydlynol ar gyfer hamdden awyr agored, sy'n caniatáu ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau hamdden difodur ar lwybrau, yng nghefn gwlad agored ac ar ddyfroedd mewndirol. Roedd cynnig 25 o'r ymgynghoriad yn gofyn am farn ar ddiddymu'r

...darpariaethau diangen yn [Neddf 2000], yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â dyddiad cau terfynol 2026 ar gyfer llwybrau hanesyddol o dan adrannau 53-56 o [Ddeddf 2000].

⁵³ Mae'n ofynnol i awdurdodau arolygu (yng Nghymru mae hyn yn golygu'r 22 awdurdod lleol) lunio a pharhau i adolygu eu map a'u datganiad(au) diffiniol. Mae'r rhain yn ffurfio'r cofnod cyfreithiol o hawliau tramwy cyhoeddus yn eu hardal. Am ragor o wybodaeth am fapiau a datganiadau diffiniol gweler [Cyfoeth Naturiol Cymru / Map a Datganiad Diffiniol \(naturalresources.wales\)](#)

⁵⁴ Ar gael yn [170728-consultation-document-cy.pdf \(llyw.cymru\)](#)

106. Cafwyd ymatebion i'r ymgynghoriad cyfan gan unigolion, sefydliadau cynrychioladol a nifer o ymgyrchoedd wedi eu trefnu. Ar gynnig 25 dangosodd y dadansoddiad o ymatebion y canlynol:

Ymatebion unigolion			Ymatebion ymgyrchoedd		
Cytuno	Anghytuno	Ddim yn siŵr	Cytuno	Anghytuno	Ddim yn siŵr
102	10	2	4,047	0	

107. Esboniodd y crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad⁵⁵:

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid y cynigion i ddiddymu ... darpariaethau penodol o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000..., yn arbennig y rheini sy'n nodi dyddiad cau ar gyfer cofnodi hawliau tramwy hanesyddol. Fodd bynnag, gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ynghylch darpariaethau eraill [Deddf 2000] yr ystyrir eu diddymu.

108. Mae'r Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru) drafft felly yn diwygio adrannau 53, 54, 55 a 56 o Ddeddf 2000, fel y bydd y darpariaethau hynny'n gymwys o ran tir yn Lloegr yn unig. Bydd hyn yn golygu na fydd y darpariaethau hynny o Ddeddf 2000 yn gymwys o ran Cymru, ac felly ni fydd dyddiad cau ar gyfer cynnwys llwybrau troed hanesyddol a llwybrau ceffylau ar fapiau diffiniol, nac ychwaith ar gyfer diddymu hawliau tramwy penodol sydd heb eu hawlio erbyn y dyddiad cau. Dyma'r sefyllfa bresennol yn y gyfraith (gan nad yw darpariaethau Deddf 2000 wedi eu cychwyn) ac mae'r newid a wneir gan y Bil hwn yn dileu'r posibilrwydd y bydd y sefyllfa bresennol yn newid heb i ddarpariaeth ddeddfwriaethol newydd gael ei gwneud.

Cwestiwn 25 - A ydych yn cytuno y dylid diwygio adrannau 53 i 56 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i fod yn gymwys o ran Lloegr yn unig?

Cwestiwn 26 - A oes gan ddiwygio Deddf 2000 fel hyn unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006

109. Fel y nodwyd uchod, mae'r Bil yn diddymu darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 (GoWA 1998) a Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (GoWA 2006) o ganlyniad i ddiddymiadau eraill a wneir yn y Bil. Yn ogystal, mae'r Bil hefyd yn gwneud diwygiadau eraill i'r Deddfau hynny, fel y nodir isod.

⁵⁵ Llywodraeth Cymru (2018) *Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion* (ar gael yn: [rheoli-adnoddau-naturiol-crynodeb-o-ymatebion.pdf](https://www.llyw.cymru/rheoli-adnoddau-naturiol-crynodeb-o-ymatebion.pdf) (llyw.cymru))

Diwygiadau amrywiol sy'n ymwneud â Deddf Llywodraeth Cymru 1998

110. Darparodd GoWA 1998 ar gyfer sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn wahanol i'r trefniadau datganoli a roddwyd ar waith ar yr un pryd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ni wnaeth GoWA 1998 ddarparu ar gyfer gwahanu'r ddeddfwrfa a'r weithrediaeth. Yn hytrach, sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol fel un corff corfforedig, a oedd yn arfer ei swyddogaethau ar ran y Goron. Golygai hyn mai un sefydliad, y Cynulliad Cenedlaethol, oedd yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau deddfwriaethol a gweithredol.
111. Roedd y Cynulliad yn ysgwyddo'r pwerau a'r dyletswyddau statudol yr oedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi eu harfer yn y gorffennol. Gwnaed darpariaeth i Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor drosglwyddo'r cyfrifoldebau gweithredol hyn gan fwyaf i'r Cynulliad a rhoddodd Deddfau Seneddol dilynol bwerau ychwanegol i'r Cynulliad.
112. Ni allai'r Cynulliad ond gwneud is-ddeddfwriaeth, fel gorchmynion a rheoliadau, mewn meysydd datganoledig. Ni allai wneud deddfwriaeth sylfaenol i Gymru, a oedd yn parhau i fod yn gyfrifoldeb Senedd y DU mewn meysydd datganoledig a meysydd a gedwir yn ôl.
113. Ym mis Mehefin 2005, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru Bapur Gwyn, *Trefn Lywodraethu Well i Gymru*⁵⁶, a oedd yn cynnwys cynigion i wahanu'n ffurfiol ganghennau gweithredol a deddfwriaethol y Cynulliad, diwygio'r trefniadau etholiadol presennol a chynyddu pwerau deddfu'r Cynulliad. Rhoddodd GoWA 2006 effaith i'r amcanion polisi eang a geir yng nghynigion y Papur Gwyn. Er iddi ddiddymu'r rhan fwyaf o GoWA 1998, parhaodd darpariaethau penodol mewn grym.
114. Mae'r Bil yn gwneud nifer o newidiadau i weddill darpariaethau GoWA 1998 i ddileu cyfeiriadau at gyrff anarferedig, dileu darpariaethau trosiannol a ddisbyddwyd a diweddarau cyfeiriadau penodol at gyrff eraill. Mae'r Bil hefyd yn dileu diwygiadau penodol a wnaeth GoWA 1998 i ddeddfiadau eraill gan nad oes angen y rhain mwyach o ganlyniad i ddiddymiadau ac amnewidiadau gan Ddeddfau diweddarach.
115. Yn benodol:
- a. Diwygio cyrff cyhoeddus eraill Cymru -
 - i. mae adran 28 o GoWA 1998 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru orchymyn trosglwyddo un neu ragor o swyddogaethau cyrff a restrir yn Atodlen 4 i Ddeddf 1998. Mae adran 28 yn cael ei diwygio felly i ddileu cyfeiriad at Ran 2 o Atodlen 4, oherwydd y darparwyd ar gyfer pwyllgorau cynghori Cymru gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977, a ddiddymwyd yn weithredol o 1 Mawrth 2007 ymlaen. Mae Rhan 2 o Atodlen 4 ei hun hefyd yn cael ei hepgor, a hynny am yr un rheswm.

⁵⁶ Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/better-governance-for-wales>

- ii. Mae'r Bil hefyd yn diwygio Rhan 1 o Atodlen 4 i GoWA 1998 i hepgor cyrff cyhoeddus nad ydynt yn bodoli mwyach neu, yn achos y cyfeiriad at Gyngor Gofal Cymru, i adlewyrchu enw newydd y corff hwnnw sef Gofal Cymdeithasol Cymru⁵⁷.
- b. Mae Atodlen 10 i GoWA 1998 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Comisiynwyr y Gwasanaeth Iechyd 1993. Gan fod y rhan fwyaf o'r rhain wedi eu disodli, bydd y Bil yn hepgor y rheini.
- c. Mae Atodlen 12 i GoWA 1998 yn ymdrin â mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth.
- i. mae'r diwygiad i baragraff 17 gan y Bil yn hepgor darpariaeth sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Leol 1974 oherwydd bod y ddarpariaeth ddiwygiedig yn y Ddeddf honno wedi ei diddymu gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005;
 - ii. cafodd y geiriau a fewnosodwyd gan baragraff 22 yn adran 134(3) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 eu hamnewid gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005, ac felly mae paragraff 22 yn cael ei hepgor;
 - iii. yn yr un modd, cafodd y geiriau a fewnosodwyd gan baragraff 36(b) eu hamnewid gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 a gellir nawr eu hepgor.
- d. Mae Atodlen 16 i GoWA 1998 yn ymdrin â diwygiadau sy'n codi o ganlyniad i ddiddymu Tai Cymru. Mae'r Bil yn hepgor:
- i. paragraff 1 gan ei fod yn diwygio Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar a Diwydiannol a Darbodus 1968 a ddiddymwyd gan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.
 - ii. paragraff 12 gan ei fod yn diwygio adran 157(4) o Ddeddf Tai 1985 ond hepgorwyd yr is-adran honno yn rhinwedd Deddf Tai 2004.
 - iii. paragraffau 56 a 57 gan eu bod yn diwygio Deddf Treth Incwm a Threth Gorfforaeth 1988. Diddymwyd darpariaethau perthnasol Deddf 1988 gan Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010.
 - iv. paragraff 68 gan ei fod yn diwygio Deddf Tai 1988 ond hepgorwyd y ddarpariaeth berthnasol gan Ddeddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018.
 - v. paragraff 84 gan ei fod yn diwygio adran 9 o Ddeddf Tai 1996 ond amnewidiwyd yr adran honno gan Ddeddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018.

⁵⁷ Mae adran 67(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn darparu bod adran 54 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 wedi ei diddymu. Mae adran 67(2) yn darparu bod y corff corfforedig o'r enw Cyngor Gofal Cymru (a sefydlwyd gan adran 54) i barhau mewn bodolaeth; mae adran 67(3) yn darparu ei fod i gael ei ailenwi, a'i adnabod fel, Gofal Cymdeithasol Cymru.

- vi. paragraff 96 gan ei fod yn diwygio darpariaethau amrywiol yn Atodlen 1 i Ddeddf Tai 1996, sydd ers hynny wedi eu hamnewid neu eu diddymu.
- vii. paragraffau 98 i 100 gan eu bod yn diwygio Deddf y Comisiwn Archwilio 1998. Diddymwyd y Ddeddf honno gan Ddeddf Archwilio ac Atebolrwydd Lleol 2014.

116. Mae Rhan 14 o'r Atodlen i'r Bil hefyd yn diddymu paragraffau penodol yn Atodlen 10 i GoWA 2006. Diwygiodd y paragraffau hynny GoWA 1998 i ddarparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau penodol mewn perthynas â choedwigaeth a'r amgylchedd o'r Cynulliad Cenedlaethol (fel yr oedd ar y pryd) i Weinidogion Cymru. Daeth y swyddogaethau hynny i ben pan gafodd Corff Adnoddau Naturiol Cymru ei greu, a diddymwyd darpariaethau sylfaenol GoWA 1998⁵⁸. Felly mae'r darpariaethau sy'n cael eu hepgor gan y Bil wedi eu disbyddu.

Darpariaeth drosiannol mewn perthynas â Deddf Llywodraeth Cymru 2006

117. O dan GoWA 2006, trosglwyddwyd pwerau a swyddogaethau'r Cynulliad, gan gynnwys y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, i Weinidogion Cymru, a ddaeth yn atebol i'r Cynulliad.
118. Creodd GoWA 2006 system ar gyfer rhoi'r gallu i'r Cynulliad basio Mesurau Cynulliad (h.y. deddfau sylfaenol) mewn 20 o feysydd diffiniedig drwy Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, yr oedd angen cydsyniad dau Dŷ Senedd y DU ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar eu cyfer.
119. Rhoddodd hefyd bwerau deddfu sylfaenol i'r Cynulliad, yn ddarostyngedig i refferendwm. Cynhaliwyd y refferendwm hwnnw yn 2011 ac, yn dilyn canlyniad cadarnhaol i'r refferendwm, ysgwyddodd y Cynulliad bwerau newydd i basio deddfwriaeth sylfaenol (Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru) heb angen cydsyniad Senedd y DU mewn meysydd penodedig.
120. Trosglwyddodd Deddf Cymru 2014 bwerau pellach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a gwnaeth Deddf Cymru 2017 newidiadau pellach i GoWA 2006 a Deddf Cymru 2014, gan gynnwys newid o fodel "rhoi pwerau" i fodel "cadw pwerau" ar gyfer datganoli yng Nghymru. Ar 6 Mai 2020 newidiwyd enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru yn sgil newidiadau a gyflwynwyd gan adran 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.
121. Yn ogystal â'r diwygiadau i GoWA 2006 sydd eisoes wedi eu nodi yn y papur hwn, mae Rhan 15 o'r Atodlen i'r Bil yn gwneud newidiadau i Atodlen 11 i GoWA 2006.
122. Mae Atodlen 11 yn cynnwys darpariaethau trosiannol i ymdrin â'r trosglwyddiad ym mis Mai 2007, pan gynhaliwyd etholiad cyntaf y Cynulliad ar ôl GoWA 2006, o'r gyfundrefn gyfreithiol a llywodraethol a grëwyd gan GoWA 1998 i'r gyfundrefn a

⁵⁸ Gweler Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (OS 2013/755) a Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaeth Ganlyniadol) 2013 (OS 2013/1821)

nodwyd yn GoWA 2006. Mae'n nodi darpariaethau manwl sy'n ymdrin â'r trefniadau angenrheidiol i sicrhau trosi effeithiol. Gan fod y trosi wedi digwydd nid oes angen llawer o'r darpariaethau hynny mwyach, a bydd y Bil yn dileu'r rhain o'r llyfr statud.

123. Mae'r diwygiadau i Atodlen 11 yn diwygio:

- a. Paragraffau 3 i 7 (ymdrin ag etholiadau) -
 - i. mae paragraff 3 yn darparu i ddyddiad cyfarfod cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol a ddychwelir ar ôl etholiad 2007 gael ei osod gan orchymyn wedi ei wneud gan yr 'hen Gynulliad' (a oedd wedi ei gyfansoddi o dan GoWA 1998). Mae hyn wedi ei ddisbyddu nawr bod y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad 2007 wedi ei gynnal.
 - ii. mae paragraff 4 yn darparu i ddyddiad etholiad cyffredinol arferol cyntaf Cymru i gael ei gynnal ar ôl 2007 gael ei gyfrifo drwy gyfeirio at etholiad 2007, a'i effaith oedd y byddai'r etholiad cyffredinol nesaf yn cael ei gynnal yn 2011. Mae hyn wedi ei ddisbyddu nawr bod etholiad 2011 wedi ei gynnal.
 - iii. mae paragraffau 5 a 6 wedi eu disbyddu hefyd gan eu bod yn diwygio adrannau 5 a 6 o GoWA 1998, a gafodd ill dwy eu diddymu gan Atodlen 12 i GoWA 2006.
 - iv. mae paragraff 7 wedi ei ddisbyddu gan ei fod yn addasu adran 11 o GoWA 2006 hyd nes yr etholiad cyffredinol cyntaf a chan ei fod yn ymwneud ag is-etholiadau'r Senedd cyn etholiad 2011.
- b. Paragraff 9, a wnaeth ddarpariaeth drosiannol ynghylch cyfnod swydd Aelodau'r Cynulliad a ddychwelwyd yn etholiad 2007 ac sydd felly wedi ei ddisbyddu nawr.
- c. Paragraff 11, sy'n datgymhwyso Arglwydd Apêl Sefydlog rhag bod yn aelod o'r Senedd. Barnwyr oedd Arglwyddi Apêl Sefydlog, neu Arglwyddi'r Gyfraith, a benodwyd o dan Ddeddf Awdurdodaeth Apeliadau 1876 i Dŷ'r Arglwyddi Prydain, fel pwyllgor ar gyfer y tŷ. Roeddent yn arfer swyddogaethau barnwrol Tŷ'r Arglwyddi, a oedd yn cynnwys gweithredu fel y llys apêl uchaf ar gyfer y mwyafrif o faterion domestig. Collodd Tŷ'r Arglwyddi ei swyddogaethau barnwrol pan sefydlwyd Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig ym mis Hydref 2009. Daeth Arglwyddi Apêl Sefydlog a oedd yn eu swyddi ar y pryd yn farnwyr Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig yn awtomatig⁵⁹. Mae adran 16 o GoWA 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020) yn anghymhwyso'r deiliaid swyddi a nodir yn y tabl yn Rhan 2 o Atodlen 1A i GoWA 2006 rhag bod yn Aelod o'r Senedd a rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd. Mae'r rhain yn cynnwys deiliaid swyddi barnwrol penodol gan gynnwys Ustusiaid y Goruchaf Lys. Felly, nid oes angen paragraff 11 mwyach.
- d. Paragraffau 14 i 19 - mae'r rhain yn ddarpariaethau a ddisbyddwyd sy'n ymwneud â threfniadau ar ôl etholiad cyffredinol 2007 y Cynulliad

⁵⁹ gweler adran 24 o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005

Cenedlaethol, a'r 'cyfnod cychwynnol'. Hynny yw, y cyfnod yn dechrau ar ddechrau diwrnod pleidleisio 2007 (pan fyddai pob aelod o'r Cynulliad presennol, gan gynnwys Gweinidogion y Cynulliad, fel arfer yn peidio â gallu arfer y swyddogaethau hynny) ac yn gorffen pan benodir Prif Weinidog.

- i. Sicrhaodd paragraff 14 fod y Cynulliad (a gyfansoddwyd o dan GoWA 2006) yn gyfrifol am gyhoeddi gwybodaeth ynghylch cydnabyddiaeth ariannol aelodau'r Cynulliad mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2006-07 (h.y. yn ymwneud â blwyddyn olaf yr 'hen Gynulliad' a'i aelodau).
 - ii. Sicrhaodd paragraff 15 fod penderfyniad a wnaed o dan adran 34A o GoWA 1998, a oedd mewn grym yn union cyn diddymu'r adran honno, yn parhau i gael effaith mewn perthynas â'r Cynulliad.
 - iii. Sicrhaodd paragraff 16 fod cynnal etholiad 2007 wedi sbarduno dyletswydd y Cynulliad i ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd.
 - iv. Sicrhaodd paragraff 17 fod y person a oedd yn Glerc yr 'hen' Gynulliad wedi dod yn Glerc y Cynulliad at ddiben swyddogaethau o dan GoWA 2006.
 - v. Darparodd paragraff 18 fod paragraffau 5 a 6 o Atodlen 2 (sy'n awdurdodi Comisiwn y Cynulliad i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r system etholiadol a'r llywodraeth ddatganoledig naill ai'n uniongyrchol neu drwy gymorth ariannol i'r Comisiwn Etholiadol) yn cael effaith hyd ddiwedd y 'cyfnod cychwynnol' fel pe bai'r cyfeiriad at Gomisiwn y Cynulliad yn gyfeiriad at yr 'hen' Gynulliad.
 - vi. Sicrhaodd paragraff 19, hyd ddiwedd y cyfnod cychwynnol, pe bai Ei Mawrhydi yn gwneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan baragraff 12(1) o Atodlen 2 yn darparu i Gomisiwn y Cynulliad gael ei drin fel corff y Goron at ddibenion deddfiad, na chaniateir dirymu'r offeryn statudol sy'n cynnwys y Gorchymyn ond gan y naill neu'r llall o ddau Dŷ Senedd y DU.
- e. Paragraffau 22 i 25, a oedd yn sicrhau y gallai swyddogaethau llywodraethol yr 'hen Gynulliad' barhau i gael eu harfer yn ystod "y cyfnod cychwynnol". Maent wedi eu disbyddu gan eu bod yn gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth a swyddogaethau'r Cynulliad a gyfansoddwyd gan GoWA 1998 yn ystod "y cyfnod cychwynnol", a ddaeth i ben ar 25 Mai 2007.
- f. Paragraff 28(1) a ddarparodd ar gyfer parhad pwerau a roddwyd i'r "hen Gynulliad" i weithredu darnau penodol o ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Nid oes ei angen mwyach oherwydd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.
- g. Paragraff 29 sy'n cyfeirio at yr enwebiad cyntaf ar gyfer Prif Weinidog mewn cysylltiad â'r tymor Cynulliad ar ôl cynnal y bleidlais yn etholiad 2007. Mae'r ddarpariaeth hon nawr wedi ei disbyddu.
- h. Paragraffau 35(3) a 35(4), sy'n ymdrin â gweithdrefnau ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth. Maent yn cael eu diwygio i ddileu cyfeiriadau at bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth sydd wedi eu diddymu.

- i. Paragraffau 50 a 51 sy'n ymdrin â'r broses ar gyfer gwneud Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol. Mae'r pŵer i wneud Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol wedi ei ddiddymu.
 - j. Paragraffau 53, 53A a 53B, sy'n ddarpariaethau a ddisbyddwyd sy'n ymwneud â thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru.
 - k. Paragraffau 54, 55, 56, 58, 59, 62 a 63 sy'n cynnwys addasiadau sy'n gymwys i ddiwedd y cyfnod cychwynnol yn unig. Daeth y cyfnod hwnnw i ben ar 27 Mai 2007.
 - l. Paragraffau 60 a 61 sy'n addasu darpariaethau yn eu cymhwysiad ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dechrau ar 1 Ebrill 2007 yn unig. Maent felly wedi eu disbyddu.
 - m. Paragraffau 64, 64B, 64C, 64F a 64G, sy'n ddarpariaethau am gyfnod penodol yn ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac maent wedi eu disbyddu.
 - n. Paragraff 65 sy'n gwneud darpariaeth angenrheidiol ar gyfer y cyfnod cyn i adran 27(1) o Ddeddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2002 ddod i rym. Mae wedi ei ddisbyddu gan y daeth adran 27 o'r Ddeddf honno i rym ar 12 Ebrill 2010.
 - o. Paragraffau 66 a 67 sy'n gwneud darpariaeth angenrheidiol ar gyfer y cyfnod cyn i adran 23(1) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 ddod i rym. Maent wedi eu disbyddu gan y daeth adran 23(1) o'r Ddeddf honno i rym ar 1 Hydref 2009.
124. Mae'r Bil hefyd yn diddymu paragraff 10 o Atodlen 3 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006 gan ei fod yn gymwys yn ystod y cyfnod cychwynnol yn unig, o fewn yr ystyr yn GoWA 2006, a ddaeth i ben ar 25 Mai 2007. Mae'r ddarpariaeth wedi ei disbyddu gan fod y cyfnod cychwynnol wedi dod i ben.

Cwestiwn 27 - A ydych yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig yn ymwneud â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006?

Cwestiwn 28 - A oes gan ddiwygio Deddf 1998 a Deddf 2006 unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021

125. Cafodd Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 (Deddf 2021) ei deddfu i ddarparu ar gyfer mesurau yn ymwneud â diogelu yn erbyn y coronafeirws i'w

cymhwyso i etholiad Senedd Cymru a'r etholiadau llywodraeth leol a oedd i'w cynnal yn 2021.

126. Roedd Deddf 2021 yn gwneud darpariaeth a oedd yn ei gwneud yn bosibl gohirio'r etholiad cyffredinol i Senedd Cymru a drefnwyd ar gyfer 6 Mai 2021. Dim ond drwy gynnig gan y Prif Weinidog yn nodi ei fod o'r farn bod gohirio'r etholiad yn angenrheidiol neu'n hwylus am resymau yn ymwneud â'r coronafeirws y byddai modd ysgogi'r weithdrefn ar gyfer gohirio. Wedi hynny, byddai'r cynnig yn ddarostyngedig i wahanol brosesau cyn iddo gael ei wrthod neu ei gymeradwyo gan y Senedd. Ni chafodd y pwerau hyn eu harfer, a chynhaliwyd yr etholiad cyffredinol, fel y trefnwyd ar 6 Mai 2021.
127. Roedd Deddf 2021 hefyd yn gwneud darpariaeth a oedd yn ei gwneud yn bosibl gohirio is-etholiadau'r Senedd neu lywodraeth leol ar gyfer swyddi gwag a allai fod wedi codi hyd at 5 Tachwedd 2021 (ond dim hwyrach na'r dyddiad hwn). Ni chafodd y pwerau hynny eu harfer, ac ni chafodd unrhyw is-etholiadau eu gohirio o dan y Ddeddf.
128. Nid oedd Deddf 2021 ond yn berthnasol i'r etholiad cyffredinol arferol a gynhaliwyd y llynedd, ac nid yw'n berthnasol i unrhyw etholiadau dilynol i Senedd Cymru. Ymhellach i hyn, nid yw'r Ddeddf yn caniatáu gohirio is-etholiadau y tu hwnt i 5 Tachwedd 2021. Felly, mae'r Ddeddf bellach wedi ei disbyddu yn llwyr. Pe bai'n ymddangos bod pandemig y coronafeirws, neu amgylchiadau eraill, yn effeithio o bosibl ar etholiadau cyffredinol neu is-etholiadau yn y dyfodol, byddai'n rhaid ystyried darpariaeth ddeddfwriaethol newydd.
129. Felly, mae paragraff 55 o'r Atodlen i'r Bil yn diddymu Deddf 2021 yn llawn.

Cwestiwn 29 - A ydych yn cytuno y dylid diddymu Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021?

Cwestiwn 30 - A oes gan ddiddymu Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 (gan gynnwys cyfeiriadau at y Ddeddf mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth) unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Materion posibl eraill i'w cynnwys mewn Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau)

130. Os oes darpariaethau eraill mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â Chymru yr ymddengys ei bod yn addas eu diddymu oherwydd eu bod bellach yn anarferedig neu wedi eu disbyddu, neu am nad ydynt yn ymarferol ddefnyddiol mwyach neu am na chawsant eu cychwyn erioed, byddem yn croesawu'r awgrymiadau hynny. Efallai y gellid cynnwys y rhain yn y Bil hwn neu fil arall o'r fath yn y dyfodol.

Ymateb 31 - Os ydych yn ymwybodol o feysydd eraill o'r gyfraith y gellid eu cynnwys mewn Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru) yn y dyfodol, darparwch wybodaeth os gwelwch yn dda.

Y camau arfaethedig nesaf

131. Ar ddiwedd yr ymgynghoriad hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ymatebion a gafwyd ac yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion hynny. Bydd y Bil drafft yn cael ei ystyried yng ngoleuni'r ymatebion a gafwyd, gyda'r bwriad o gyflwyno Bil i'r Senedd ar bwynt addas yn y rhaglen ddeddfwriaethol.
132. Roedd rhaglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru yn rhag-weld yn wreiddiol y byddai Bil sy'n ymdrin â diddymu cyfraith statud yn cael ei gyflwyno i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 26C y Senedd. Erbyn hyn, rydym yn ystyried ei bod yn fwy priodol cyflwyno'r Bil hwn o dan Reol Sefydlog 26 y Senedd, sy'n nodi'r weithdrefn ar gyfer Biliau sy'n diwygio'r gyfraith.

Furflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

Eich cyfeiriad e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn 1 - A oes gan ddiwygio Rhan 3 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1967 fel nad yw'n gymwys mwyach o ran Cymru unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Cwestiwn 2 - A oes gan ddiwygio Atodlen 32 i Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980 fel nad yw'n gymwys mwyach o ran Cymru unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Cwestiwn 3 - A oes gan ddiwygio Rhan 3 o Ddeddf Tai 1988 fel nad yw'n gymwys mwyach o ran Cymru unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Cwestiwn 4 - A ydych yn cytuno y gall y trefniadau trosiannol mewn perthynas â chynlluniau lleol a chynlluniau strwythur gael eu diddymu yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, a Deddf Cynllunio 1998?

Cwestiwn 5 - A oes gan hepgor y trefniadau trosiannol mewn perthynas â chynlluniau lleol a chynlluniau strwythur unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Cwestiwn 6 - A oes gan ddiwygio Deddf Cynllunio ac Ynni 2008 fel nad yw'n gymwys mwyach o ran Cymru unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Cwestiwn 7 - A ydych yn cytuno na ddylai Deddf Tir Amaethyddol (Symud Ymaith Bridd Arwyneb) 1953 fod yn gymwys mwyach o ran Cymru?

Cwestiwn 8 - A oes gan ddileu cymhwysiad Deddf 1953 i dir amaethyddol yng Nghymru unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Cwestiwn 9 - A ydych yn cytuno y dylid gwneud y diwygiadau mewn perthynas â phwyllgorau gwasanaethau cymdeithasol?

Cwestiwn 10 - A ydych yn cytuno y dylid diddymu'r darpariaethau a ddisbyddwyd mewn perthynas â Chorff Gweddilliol Cymru?

Cwestiwn 11(a) - A oes unrhyw reswm pam na ellir diddymu adrannau 41 i 45 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 yn llawn?

Cwestiwn 11(b) - Os na ellir diddymu adrannau 41 i 45 eto, a oes pwynt yn y dyfodol pan fyddant yn addas i'w diddymu (er enghraifft, am fod pob contract cyflogaeth y gallent fod yn gymwys iddo wedi peidio â bodoli)?

Cwestiwn 12 - A ydych yn cytuno y dylid diddymu'r darpariaethau a ddisbyddwyd mewn perthynas â datganoli ("decentralisation") a chydweithio?

Cwestiwn 13 - A oes gan y diwygiadau a nodir yng nghwestiynau 9, 10 ac 11 unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Cwestiwn 14 - A ydych yn credu bod unrhyw angen yn dal i fod i adran 5 o Ddeddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986 fod yn gymwys i Gymru?

Cwestiwn 15 - Os caiff adran 5 o Ddeddf 1986 ei datgymhwyso i Gymru, a ydych yn credu bod angen ei chynnal dros dro er budd posibl y grŵp o bersonau sydd wedi cael datganiadau o anghenion addysgol arbennig o dan Ddeddf Addysg 1996?

Cwestiwn 16 - A oes gan ddiddymu adran 5 o Ddeddf 1986 unrhyw ganlyniadau eraill y dylid eu hystyried ymhellach?

Cwestiwn 17 - A ydych yn cytuno y dylai'r Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) ddiddymu'r darpariaethau yn Neddf yr Amgylchedd 1995?

Cwestiwn 18 - A oes gan ddiwygio Deddf 1995 unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Cwestiwn 19 - A ydych yn cytuno y dylid diddymu Deddf Diwydiant 1979 a Deddf Awdurdod Datblygu Cymru 1997?

Cwestiwn 20 - A oes gan ddiddymu Deddf 1979 a Deddf 1997 unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Cwestiwn 21 - A ydych yn cytuno y dylid diddymu Deddf Datblygu Cymru Wledig 1976?

Cwestiwn 22 - A oes gan ddiddymu Deddf 1976 unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Cwestiwn 23 - A ydych yn cytuno y dylid diddymu'r darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 sy'n ymwneud ag Awdurdod Tir Cymru?

Cwestiwn 24 - A oes gan ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 1998 mewn perthynas ag Awdurdod Tir Cymru unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Cwestiwn 25 - A ydych yn cytuno y dylid diwygio adrannau 53 i 56 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i fod yn gymwys o ran Lloegr yn unig?

Cwestiwn 26 - A oes gan ddiwygio Deddf 2000 fel hyn unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Cwestiwn 27 - A ydych yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig yn ymwneud â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006?

Cwestiwn 28 - A oes gan ddiwygio Deddf 1998 a Deddf 2006 unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Cwestiwn 29 - A ydych yn cytuno y dylid diddymu Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021?

Cwestiwn 30 - A oes gan ddiddymu Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 (gan gynnwys cyfeiriadau at y Ddeddf mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth) unrhyw ganlyniadau y dylid eu hystyried ymhellach?

Ymateb 31 - Os ydych yn ymwybodol o feysydd eraill o'r gyfraith y gellid eu cynnwys mewn Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru) yn y dyfodol, darparwch wybodaeth os gwelwch yn dda.

Cwestiwn 32 - Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Bil drafft yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 33 - Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r Bil drafft arfaethedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 34 - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. I gadw eich ymateb yn ddienw, ticiwch y blwch

☐